

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

83/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/09/2023

Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022

Awdur(on): Emma Chaplin, Jane Henderson, Phil Parkes

Adroddiad Ymchwil Llawn: Chaplin E, Henderson J, Parkes P (2023). *Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2023.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'n farn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Diwylliant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: cymal@llyw.cymru

Cynnwys

1.	Rhagymadrodd a chefnidir	11
	Cyd-destun ymchwil Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd Cymru	11
	Nodau ac Amcanion	12
2.	Methodoleg	14
	Cynllun yr Ymchwil	14
	Datganiadau ystod	15
	Newidiadau i'r fformat	15
	Cefndir y Grŵp Craidd	17
	Amserlen	18
	Platfform yr Arolwg	18
	Lansiad yr Arolwg	18
	Cymorth gyda'r arolwg	18
	Y Gymraeg	19
	Cyfradd ddychwelyd	19
	Dull dethol y grŵp craidd	19
	Profi natur berthnasol y fethodoleg	22
	Allforio Data	24
	Dadansoddi'r data	24
	Cyfleu'r canfyddiadau: Cyfarfodydd sector	25
	Cyfleu'r canfyddiadau: Tafleenni data sector terfynol	25
3.	Canfyddiadau a dehongli	27
	Ymatebion	27
	Ymwelwyr â'r amgueddfeydd	29
	Trosolwg ariannol	38
	Effaith economaidd	38
	Ffynonellau Ariannu	42
	Gweithlu amgueddfa	44
	Casgliadau	51
	Dysgu	62

	Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant.....	72
	Cynaliadwyedd Amgylcheddol	77
	Partneriaethau	78
	Polisi a chynllunio.....	81
4.	Adolygiad methodoleg gydag argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol	83
	Amseriad yr arolwg	83
	Cronfa Ddata Cysylltiadau	83
	Cwestiynau Gorfodol.....	84
	Datganiadau ystod	84
	Geiriad	84
	Cwestiynau ychwanegol.....	85
5.	Adran gyfeirio	86
	Atodiad A: Holiadur	88
	Atodiad B: Hysbysiad preifatrwydd.....	116
	Atodiad C: Rhestr o'r holl amgueddfeydd sy'n ymateb i'r arolwg.....	120
	Atodiad D: Grŵp craidd o amgueddfeydd Sbotolau 2022	123
	Atodiad E: Data datganiad ystod.....	125

Rhestr o dablau

Tabl 1:1 Amcanion allweddol yr Arolwg Sbotolau 2022	13
Tabl 2.1: Adolygu byrfoddau ystod datganiadau	15
Tabl 2.2: Newidiadau i arolwg 2022 o fersiwn 2019.....	16
Tabl 2.3: Cynnwys C49 newydd i gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.....	17
Tabl 2.4: Cyfanswm nifer yr amgueddfeydd achrededig fesul gwlad a rhanbarth daearyddol	20
Tabl 2.5: Cyfanswm yr amgueddfeydd yng ngogledd a de Cymru a'r targedau arfaethedig	20
Tabl 2.6: Dull llywodraethu amgueddfeydd a thargedau arfaethedig	21
Tabl 2.7: Maint yr amgueddfeydd ar y rhestr achrededig (cyn datganiadau 2022)	21
Tabl 2.8: Maint yr amgueddfeydd ar y rhestr achrededig (gan gynnwys datganiadau 2022)	21
Tabl 2.9: Targedau grŵp craidd yn seiliedig ar gategori a maint grŵp craidd 50 o amgueddfeydd	22
Tabl 3.1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl sir	27
Tabl 3.2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o lywodraethu	28
Tabl 3.3: Ymatebion i'r arolwg yn ôl maint yr amgueddfa.....	28
Tabl 3.4: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal ddaearyddol a math o lywodraethu	29
Tabl 3.5: Patrwm agor arferol yr amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg	29
Tabl 3.6: Patrwm agor arferol yn ôl math o lywodraethu.....	30
Tabl 3.7: Tarfu ar batrymau agor yn ystod 2022 yn ôl math o lywodraethu	30
Tabl 3.8: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol), gwirioneddol ac amcangyfrif, yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	31
Tabl 3.9: Cyfanswm y ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	31
Tabl 3.10: Adferiad mewn ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	32
Tabl 3.11: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein), gwirioneddol ac amcangyfrifon yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn.....	33
Tabl 3.12: Cyfanswm y ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	35
Tabl 3.13: Nifer o amgueddfeydd sydd wedi cynnal ymchwil cynulleidfa	37
Tabl 3.14: Y mathau o ymchwil cynulleidfa sydd wedi'i gynnal gan yr amgueddfeydd.....	37

Tabl 3.15: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu.....	38
Tabl 3.16: Newid mewn cymorth gan yr Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu.....	39
Tabl 3.17: Mathau o gymorth gan yr Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu	40
Tabl 3.18: Amgueddfeydd sy'n codi tâl am fynediad cyffredinol yn ôl math o lywodraethu ..	40
Tabl 3.19: Amgueddfeydd sy'n codi tâl ar arddangosfeydd neu wasanaethau yn ôl math o lywodraethu.....	41
Tabl 3.20: Dadansoddiad o incwm a gwariant ar gyfer 2021/22 yn ôl math o lywodraethu..	42
Tabl 3.21: Gweithlu amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu.....	44
Tabl 3.22: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ôl math o lywodraethu	45
Tabl 3.23: Nifer y staff proffesiynol cyfwerth ag amser llawn yn ôl rôl a math o lywodraethu amgueddfa	45
Tabl 3.24: Nifer y curaduron a gwarchodwyr cymwys yn ôl math o lywodraethu	46
Tabl 3.25: Staff cyfwerth ag amser llawn cyflogedig ar sail tymor penodol ar gyfer prosiectau penodol yn ôl math o lywodraethu.....	46
Tabl 3.26: Cyfraniad gwirfoddolwyr i amgueddfeydd 2021/22 yn ôl math o lywodraethu amgueddfa	47
Tabl 3.27: Oriau blynyddol cyfartalog 2021/22 a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr yn ôl math o lywodraethu amgueddfa	47
Tabl 3.28: Cymharu â data Sbotolau 2020 ar gyfer nifer y gwirfoddolwyr a staff cyfwerth ag amser llawn	48
Tabl 3.29: Newid mewn cyllideb hyfforddiant er Sbotolau 2020 yn ôl math o lywodraethu ..	49
Tabl 3.30: Gwrthrychau a gedwir gan amgueddfeydd a chaffaeliadau newydd yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu	55
Tabl 3.31: Gwrthrychau yn gadael casgliadau parhaol yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu	55
Tabl 3.32: Faint o amser hyd nes y bydd storfa yn gorlenwi ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu.....	56
Tabl 3.33: Mynediad cyhoeddus at gasgliadau ar-lein.....	61
Tabl 3.34: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (wyneb yn wyneb) yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu.....	62
Tabl 3.35: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu.....	62

Tabl 3.36: Cyfanswm sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu.....	63
Tabl 3.37: Cyfanswm sefydliadau dysgu ffurfiol yn gysylltiedig yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu.....	63
Tabl 3.38: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb (wyneb yn wyneb) yn ôl math o lywodraethu.....	64
Tabl 3.39: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn ôl math o lywodraethu	64
Tabl 3.40: Cyfanswm sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb yn 2021/22.....	65
Tabl 3.41: Datganiadau Ystod Gyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl math o lywodraethu.....	65
Tabl 3.42: Datganiadau Ystod Gyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl maint amgueddfa	65
Tabl 3.43: Cymharu darpariaeth dysgu Sbotolau 2022 yn erbyn Sbotolau 2020	66
Tabl 3.44: Nifer o amgueddfeydd yn defnyddio Pecyn Llesiant UCL yn ôl math o lywodraethu.....	71
Tabl 3.45: Darpariaeth arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau sy'n targedu cymunedau penodol yn ôl math o lywodraethu	72
Tabl 3.46: Nifer o amgueddfeydd sydd wedi cynnal archwiliad mynediad ffurfiol yn ôl math o lywodraethu.....	73
Tabl 3.47: Nifer o amgueddfeydd yn ymgymryd â chymau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydarddoldeb a chynhwysiant	76
Tabl 3.48: Nifer o amgueddfeydd sy'n ymgysylltu gyda Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.....	77
Tabl 3.49: Nifer y staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg mewn amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu.....	77
Tabl 3.50: Lefelau risg i amgueddfeydd o lifogydd.....	78
Tabl 3.51: A ofynnwyd i'r amgueddfa gyflenwi data i'w Awdurdod Lleol / corff cyhoeddus fel rhan o adroddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?.....	78
Tabl 3.52: Math o wasanaethau a ddarperir gan AC-MW sy'n cael eu defnyddio yn ôl math o lywodraethu.....	79
Tabl 3.53: Nifer o wasanaethau a ddarperir gan AC-MW sy'n cael eu defnyddio yn ôl math o lywodraethu.....	79
Tabl 3.54: Ydych chi wedi gweithio mewn partneriaeth ag AC-MW yn ôl math o lywodraethu	80

Tabl E.1: Datblygu cynulleidfa a newid datganiad ystod marchnata strategol dros amser yn ôl math o lywodraethu	126
Tabl E.2: Newid datganiad ystod gyfartalog datblygu cynulleidfa a marchnata strategol dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	126
Tabl E.3: Datganiad ystod datblygiad staff a gwirfoddolwyr yn newid dros amser yn ôl y math o lywodraethu	127
Tabl E.4: Datganiad ystod datblygiad staff a gwirfoddolwyr yn newid dros amser yn ôl maint amgueddfa	127
Tabl E.5: Darpariaeth datganiad ystod adeiladau addas newid dros amser yn ôl math o lywodraethu	128
Tabl E.6: Datganiad ystod adeiladau addas yn newid dros amser yn ôl maint amgueddfa	128
Tabl E.7: Datganiad ystod monitro amgylcheddol newid dros amser yn ôl math o lywodraethu	129
Tabl E.8: Datganiad ystod monitro amgylcheddol newid dros amser yn ôl	129
maint yr amgueddfa	129
Tabl E.9: Newid datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu	130
Tabl E.10: Newid datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	130
Tabl E.11: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu	131
Tabl E.12: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	131
Tabl E.13: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu	132
Tabl E.14: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	132
Tabl E.15: Newid datganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl math o lywodraethu	133
Tabl E.16: Newid datganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl maint yr amgueddfa.....	133
Tabl E.17: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	134
Tabl E.18: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	134
Tabl E.19: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu.	135
Tabl E.20: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl maint	135
Tabl E.21: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl math o lywodraethu	136

Tabl E.22: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl maint yr amgueddfa.....	136
Tabl E.23: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl math o lywodraethu	137
Tabl E.24: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	137
Tabl E.25: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl math o lywodraethu	138
Tabl E.26: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl maint	138

Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Cymhariaeth o ystod datganiad gyfartalog ar gyfer datganiadau Sbotolau 2022 gan ddefnyddio methodoleg grŵp craidd Sbotolau 2020.....	23
Ffigur 2.2: Cymhariaeth o'r ystod datganiad gyfartalog ar gyfer datganiadau Sbotolau 2022, gan ddefnyddio methodoleg grŵp craidd Sbotolau 2022.....	23
Ffigur 3.1: Cyfanswm yr ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	32
Ffigur 3.2: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn	35
Ffigur 3.3: Newid yn natganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol dros amser yn ôl math o lywodraethu	36
Ffigur 3.4: Newid yn natganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol dros amser yn ôl maint amgueddfa.....	36
Ffigur 3.5: Mae datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddoli yn newid dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	49
Ffigur 3.6: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr dros amser yn ôl maint amgueddfa	50
Ffigur 3.7: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	51
Ffigur 3.8: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl maint amgueddfa	51
Ffigur 3.9: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	52
Ffigur 3.10: Newid yn y datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa	53
Ffigur 3.11: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	53
Ffigur 3.12: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa	54
Ffigur 3.13: Pa mor hir hyd nes y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu.....	56
Ffigur 3.14: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu	57
Ffigur 3.15: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa ..	57

Ffigur 3.16: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	58
Ffigur 3.17: Newid yn natganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa	59
Ffigur 3.18: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl math o lywodraethu ...	60
Ffigur 3.19: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl maint amgueddfa	60
Ffigur 3.20: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu	67
Ffigur 3.21: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl maint	67
Ffigur 3.22: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu ..	68
Ffigur 3.23: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl maint	69
Ffigur 3.24: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl math o lywodraethu	74
Ffigur 3.24: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	74
Ffigur 3.26: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl math o lywodraethu.....	75
Ffigur 3.27: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl maint yr amgueddfa	76
Ffigur 3.28: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl math o lywodraethu	81
Ffigur 3.29: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl maint	81

Rhestr Eirfa

Byrfoddau/geiriau allweddol	Diffiniad
AC-MW	Amgueddfa Cymru – Museum Wales
Achrediad	Cynllun Safonau Amgueddfeydd y DU
AIM	Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol
ALVA	Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Mawr
ARWAP	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
CyMAL	Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru
CALI	Cyferth ag Amser Llawn
Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddf Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
MA	Cymdeithas Amgueddfeydd y DU
NCVO	Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol

1. Rhagymadrodd a chefnidir

- 1.1 Mae'r amgylchedd polisi i amgueddfeydd yng Nghymru wedi'i fframio gan gyfleoedd clir i amgueddfeydd gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol o ran nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru 2015) a'r [Rhaglen Lywodraethu](#) (Llywodraeth Cymru 2021) yn benodol ynghylch yr ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd a sicrhau bod hanes cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn cael ei gynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi yn y fframwaith diwylliannol ac amgueddfeydd. Yn ogystal, mae strategaethau perthnasol mewn perthynas â thwristiaeth, digidol, y Gymraeg a newid yn yr hinsawdd sy'n gallu bod yn ffocws i amgueddfeydd.
- 1.2 Mae cyfansoddiad y sector amgueddfeydd yng Nghymru wedi'i nodweddu gan garfan o amgueddfeydd bychain (math achrediad 1) ac amgueddfeydd annibynnol (gan gynnwys y rhai hynny a gynhelir gan wirfoddolwyr) yw'r rhai mwyaf niferus.
- 1.3 Darparodd y strategaeth 'Strategaeth Amgueddfeydd i Gymru 2010-2015' genedlaethol ffocws strategol ar gyfer llywio a chryfhau'r sector amgueddfeydd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf a serch hynny, amlinellodd yr Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Edwards 2015) raddfa'r dasg i sicrhau hefyd nad yw amgueddfeydd yn dirywio a'u bod wedi'u harfogi i wireddu eu potensial i gyfrannu at iechyd a ffyniant y cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Cyd-destun ymchwil Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd Cymru

- 1.4 Cynhaliwyd adroddiad mapio amgueddfeydd cychwynnol gan Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru yn 2002. Adolygiad oedd hwn o gasgliadau a gwasanaethau amgueddfeydd. Wedi hynny, mae'r Arolwg Sbotolau wedi'i gyhoeddi yn 2006, 2011, 2015 a 2019. Roedd y fformat yn deillio o'r corff rhagflaenydd (CyMAL) ac roedd wedi'i ddylanwadu gan ddogfennau beirniadol, gan gynnwys y [Fframwaith Ysbrydoli Dysgu i Bawb](#) (y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau 2008), [Meincnodau Gofal Casgliadau](#) (y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau 2011) a'r gofynion achredu ar yr adeg honno. Mae'r [Cynllun Achredu Amgueddfeydd](#) (Cyngor Celfyddydau Lloegr 2019) yn amlinellu safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol o ran arfer da ac yn ei gwneud hi'n bosib i amgueddfeydd asesu eu perfformiad presennol yn ogystal â'u cefnogi i gynllunio a datblygu eu gwasanaethau. I gynnig cysondeb o ran data, mae'r fformat wedi parhau heb fawr o newid ers hynny, sydd wedi'i gwneud hi'n bosib tynnu ar ddata a gymharwyd, gan ddefnyddio rhanddeiliaid allweddol a elwir yn grŵp craidd. Dros y blynyddoedd, mae adrannau a chwestiynau ychwanegol wedi'u hychwanegu at yr arolwg, megis datblygu cynulleidfaoedd a marchnata, darpariaeth ddysgu ac

ymgysylltiad addysgol, a mynediad amgueddfeydd i grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

- 1.5 Dangosodd adolygiad o Sbotolau gan Brifysgol Caerdydd yn 2022 (Henderson a Parkes 2022) fod posibilrwydd o aliniad pellach rhwng Sbotolau a'r [Rhaglen Lywodraethu](#) (Llywodraeth Cymru 2021), [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (Llywodraeth Cymru 2015), a [Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (Llywodraeth Cymru 2022). Mae anghenion a dyheadau partneriaid sector megis y Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig i'r holiadur. Mae blaenoriaethau newydd a phwysig sy'n gysylltiedig â llywodraethu, gweithredu o ran newid yn yr hinsawdd a'r agenda cydraddoldebau wedi'u cynnwys. Cytunwyd y byddai'r holiadur Sbotolau yn addas at y diben ac yn barod i'w lansio (Atodiad A) gyda golygiadau bach yn unig (Tabl 2.2).
- 1.6 Mae gan yr Arolwg Sbotolau rôl unigryw wrth fonitro ac asesu iechyd parhaus y sector amgueddfeydd. Ers ei sefydlu, mae Sbotolau wedi darparu data hanfodol i lywio gwaith cynllunio, cyllido a phenderfyniadau strategol eraill mewn cyd-destun amgueddfeydd.

Nodau ac Amcanion

- 1.7 Comisiynwyd Emma Chaplin Heritage and Museum Services gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i gynnal Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022. Amlinellwyd nodau'r gwaith hwn yn y ddogfennaeth 'gwahoddiad i dendr' ac roedd wedi'i rannu'n ddau gam gwahanol o waith. Roedd y cam cyntaf yn gofyn i'r contractiwr gynnal Arolwg Sbotolau'r Amgueddfa 2022 a darparu cymorth i'r sector amgueddfeydd cyn ac yn ystod y prif gamau o waith maes i fwyafu'r gyfradd ymateb. Fel rhan o'r ail gam, roedd disgwyl i'r contractiwr helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i hwyluso ymgysylltiad a chyfranogiad drwy gyfres o weithdai rhithwir i gyfathrebu'r canfyddiadau allweddol o'r arolwg i'r sector.

Tabl 1:1 Amcanion allweddol yr Arolwg Sbotolau 2022

Cam	Amcanion allweddol
Cam 1	Darparu cymorth i'r sector amgueddfeydd cyn i'r arolwg fynd yn fyw i fwyafu'r gyfradd ymateb, yn enwedig wrth dargedu amgueddfeydd llai ac annibynnol yng Nghymru.
	Cynnal yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022 gydag Amgueddfeydd Achrededig neu'r rhai hynny sy'n Gweithio Tuag at Achrediad a chynnal dadansoddiad o'r ymatebion.
	Datblygu cymorth ychwanegol i amgueddfeydd yn ystod camau gwaith maes i fwyafu'r gyfradd ymateb.
	Llunio adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth terfynol a dwyieithog (gan gynnwys crynodeb gweithredol dwyieithog).
	Yn ychwanegol, llunio adroddiad 'sectoraidd' terfynol dwyieithog o'r canfyddiadau allweddol ac isafswm o ffeithlenni dwyieithog cefnogol ar thema sy'n rhoi manylion am ganfyddiadau arolwg allweddol fel y gall arweinwyr amgueddfeydd a rhanddeiliaid ledled Cymru gyrchu'r rhain un rhwydd (a chyfrannu'n uniongyrchol i'r ail gam gwaith).
Cam 2	Cyflwyno dau weithdy dwyieithog rhithwir yn brydlon mewn partneriaeth â chydweithwyr polisi Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru a mynd i o leiaf tri chyfarfod sectoraidd â rhanddeiliaid y sector amgueddfeydd allanol i rannu effaith y canfyddiadau allweddol.

Ffynhonnell: Dogfen dendro

1.8 Wrth gyfathrebu canfyddiadau'r arolwg, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Mae Pennod 2 yn cyflwyno methodoleg yr arolwg, gan gynnwys newidiadau i fersiynau blaenorol a chyfyngiadau methodolegol.

Mae pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg ac yn cynnig dehongliad o'r canlyniadau o'u cymharu ag arolygon sbotolau blaenorol yng nghyd-destun y sector amgueddfeydd a threftadaeth.

Mae pennod 4 yn cyflwyno adolygiad o'r fethodoleg, ynghyd ag argymhellion am gasglu data yn y dyfodol.

Pennod 5 Cyfeiriadau

2. Methodoleg

- 2.1 Darparodd tîm Llywodraeth Cymru ddogfennaeth i dîm y prosiect, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adroddiadau Sbotolau a gyhoeddwyd eisoes, adroddiad adolygiad 2022 a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd, copi o'r holiadur arolwg y cytunwyd arno, a'r data amrwd o rowndiau blaenorol o arolwg Sbotolau. Cyn argymell fersiwn derfynol o'r holiadur, adolygodd tîm y prosiect y data hyn gan argymell grŵp bach o newidiadau (Tabl 2.2). Cytunwyd ar yr holiadur terfynedig ar y cyd â Rheolwr Prosiect Llywodraeth Cymru yn y cam Dechrau Adrodd cyn ei ryddhau.

Cynllun yr Ymchwil

- 2.2 Roedd nodau ymchwil Sbotolau, dull yr ymchwil (arolygu amgueddfeydd unigol) a chwmpas yr ymchwil (y cwestiynau i'w gofyn a'u cynllunio) wedi'u pennu gan y contract naill ai'n gyfan gwbl neu'n bennaf. Mae deall dull Sbotolau 2022 yn gofyn am ddealltwriaeth o hanes Sbotolau, a amlinellwyd yn adran 1 a'r datblygiad hwyrach yn adran 2.
- 2.3 Mae'r dull ymchwil yn arolwg cyfrifiad lle anfonir yr holiadur llawn at yr holl gysylltiadau dynodedig a restrwyd ar gyfer amgueddfeydd achrededig yng Nghymru yn ôl Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Mae'r rhestr yn cynnwys y rhai hynny sy'n cyflwyno cais am achrediad ac sy'n ddeiliaid achrediad dros dro. Roedd pwnc yr arolwg wedi'i bennu gan y cleient fel amgueddfeydd ar y cynllun achrediad ar ddechrau cyfnod yr arolwg. Gwnaeth hyn roi maint sampl posib mwyaf o 111 o amgueddfeydd. Darparwyd manylion cyswllt yr amgueddfeydd yn y sampl gan y cleient.
- 2.4 Mae Sbotolau yn casglu data meintioliol ac ansoddol. Roedd y cwestiynau a oedd yn cael eu gofyn yn cynnwys data enwol, trefnol ac ysbeidiol. Mae data enwol yn casglu data categoriaidd gyda phriodweddau y gellir eu henwi. Mae hyn yn cynnwys enwau amgueddfeydd neu adborth am enghreifftiau o lwyddiant. Mae data trefnol yn yr arolwg yn casglu gwybodaeth y gellir eu rhoi mewn trefn, megis perygl llifogydd neu a yw cymorth ariannol wedi cynyddu neu ostwng ers yr arolwg diwethaf. Casglwyd data ysbeidiol am bethau y gellir eu cynrychioli gyda phriodweddau a ddiffiniwyd, megis nifer y sesiynau addysg neu gyllideb weithredu'r amgueddfa. Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau data ysbeidiol, gall yr ymatebwr nodi brasamcan o ddata, ond caiff yr atebion hyn eu cofnodi a gellir eu gwahaniaethu yn y gronfa ddata. Mae data datganiad o ystod sy'n cael eu disgrifio isod yn drefnol oherwydd y gellir ei roi mewn trefn ond mae'r tîm ymchwil yn disgrifio hyn fel rhannol-feintioliol oherwydd natur oddrychol yr ymatebion.

Datganiadau ystod

2.5 Mae datganiadau o ystod wedi bod yn nodwedd gyffredin o arolwg Sbotolau. Mae'r datganiadau hyn o ystod yn ddull meincnodi rhannol-feintiol i gasglu perfformiad amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyflawni amcan cyffredin megis dogfennaeth casgliadau neu ddatblygiad fframwaith polisi a chynllunio. Gan ystyried chwe lefel feincnodi, gofynnir i amgueddfeydd hunanasesu pa lefel sy'n disgrifio eu harfer orau. Prin y byddai'r amgueddfeydd a fyddai'n canfod meincnod sy'n cyd-fynd yn llawn â'i harfer, a byddai'n anghyffredin iawn cael rhai elfennau o feincnod uwch ond dewis un is a oedd yn cynnig y gynrychiolaeth fwyaf ar gyfer y casgliadau. O ganlyniad, ni ddylid gorddweud cywirdeb y datganiadau hyn. Fodd bynnag, oherwydd eu defnydd cyson a'u natur gyfarwydd â'r fetrig yn y sector, mae'r rhain wedi'u cadw. Er bod y ffigur rhifol yn atodedig â'r disgrifydd enwol, mae'r awduron yn credu lle bod ystod sgoriau datganiad yn cynyddu neu'n gostwng, mae'n debygol bod hyn yn cynnig cyberthyniad da â darpariaeth yr amcan a enwyd ar draws y sector amgueddfeydd yng Nghymru.

Tabl 2.1: Adolygu byrfoddau ystod datganiadau

Ystod Datganiadau	Byrfodd	Rhif 'Ff'
Darpariaeth Adeilad Addas	Adeilad	Ff1
Monitro Amgylcheddol	Monitro Amg.	Ff2
Rheolaeth Amgylcheddol	Rheolaeth Amg.	Ff3
Storio a Chadw Tŷ	Storio CT	Ff4
Arddangosfa a Chadw Tŷ	Arddangosfa CT	Ff5
Dogfennaeth	Dogfennaeth	Ff6
Polisi a Chynllunio	Polisi	Ff7
Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr	Gweithlu	Ff8
Datblygu Cynulleidfa a Marchnata	Cynulleidfaoedd	Ff9
Mynediad – Arddangosfa	Arddangosfa	Ff10
Dysgu Anffurfiol	Dysgu Anffurfiol	Ff11
Dysgu Ffurfiol	Dysgu Ffurfiol	Ff12
Mynediad – Anabled	Mynediad	Ff13

Ffynhonnell: Sbotolau 2020

Nodiadau tabl: Darparwyd yr ystod datganiadau gyda rhifau 'Ff' mewn fersiynau blaenorol o'r adroddiad. Mae'r rhain wedi'u tynnu ond maent wedi'u cynnwys er mwyn hwyluso croesyfeirio.

Newidiadau i'r fformat

2.6 Roedd yr ymgynghorwyr yn ymwybodol o gynnwys ac allbynnau o fersiynau blaenorol o arolygon Sbotolau (a Spotlite, sef fersiwn gryno o'r arolwg a gynhaliwyd yn 2016) o brofiad uniongyrchol o gasglu data a chyfranogiad mewn trafodaethau yn y sector treftadaeth ddiwylliannol. Ystyriwyd natur a helaethder y newidiadau a fyddai'n briodol, gan ystyried y pwysau i newid cwestiynau i ddangos perthnasedd a'r baich a roddwyd ar gyfranogwyr y sector amgueddfeydd drwy estyn yr holiadur. Nododd adborth o'r sector bynciau ychwanegol posib ar gyfer yr holiadur ond hefyd

ymdeimlad llethol bod y sector yn teimlo ei fod yn cael ei or-arolygu. Roedd anghenion Llywodraeth Cymru i ymgymryd â dadansoddiad hir dymor o ddata cyson hefyd yn ffactor wrth lunio holiadur a oedd yn gyson yn gyffredinol â fersiynau blaenorol.

- 2.7 Mewn perthynas ag effeithiau net creu data newydd a pherthnasol drwy ychwanegu neu newid cwestiynau o fersiynau blaenorol, yn erbyn creu gorfod o lif sy'n arwain at lai o ymatebion ac anfodhad yn y sector, newidiwyd pedwar cwestiwn ar gyfer arolwg 2022.

Tabl 2.2: Newidiadau i arolwg 2022 o fersiwn 2019

Arolwg 2022	Natur y newid
Cwmpas yr arolwg	Cynnwys y grŵp craidd
Cwmpas yr arolwg	Dim ond amgueddfeydd achrededig a arolygwyd (gan gynnwys y rhai ag achrediad dros dro neu sy'n gweithio tuag ato)
C17	Eglurhawyd ystod datganiadau ar arddangosfeydd
C28	Gwahanu gwirfoddolwyr ac Ymddiriedolwyr.
C29	Diweddarwyd diffiniad siaradwr Cymraeg
C49	Cwestiynau ychwanegol ar ARWAP

Ffynhonnell: Sbotolau 2020 a Sbotolau 2022

- 2.8 Ystod datganiad C17 Mynediad - Diweddarwyd yr arddangosfa i dynnu'r diffyg eglurder ynghylch y term 'i safon broffesiynol' a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae diffiniad gwreiddiol hwn bellach ar goll. Roedd arolygon blaenorol ar agor i unrhyw sefydliad sy'n galw ei hun yn amgueddfa ond gan fod arolwg 2022 wedi'i gwblhau gan amgueddfeydd achrededig yn unig, gellir cymryd yn ganiataol, oherwydd gofyniad y safon, y byddai ganddynt oll fynediad at gyngor proffesiynol i lywio gwaith arddangos.
- 2.9 Gwahanodd arolwg 2022 ymddiriedolwyr yn benodol o wirfoddolwyr am y tro cyntaf. Yn C28, "Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn yr amgueddfa?", gofynnwyd i ymatebwyr wahaniaethu rhwng Gwirfoddolwyr (Amgueddfa) a Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr) gan fod y rhain yn rolau gwahanol. Mewn rhai amgueddfeydd, bydd unigolion yn gwneud y ddwy rôl. Mae pwysigrwydd ymddiriedolwyr yn wahanol i bwysigrwydd gwirfoddolwyr eraill oherwydd nad ydynt yn elwa'n bersonol ac yn cyfrannu at eu cymuned, ac maent hefyd yn llywio'r polisi a rheolaeth yr amgueddfa. Mae casglu gwybodaeth ar amrywiaeth mewn arweinyddiaeth yn fesur pwysig o sut mae amgueddfeydd yn cynrychioli'r gymdeithas.
- 2.10 I gasglu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg mewn amgueddfeydd, gofynnodd yr arolwg gwestiwn gan ddefnyddio'r frawddeg 'yn gallu cyrchu gwasanaethau yn Gymraeg?' fel dangosydd ie/na o'r gallu i siarad Cymraeg. Y bwriad oedd nodi a allai gwirfoddolwyr (C28b) a staff (C29b) ymdrin ag ymholiadau, croesawu a gwaith amgueddfa o ddydd i ddydd yn Gymraeg. Roedd yr opsiynau amgen a ystyriwyd yn cynnwys statws dysgwyr y Gymraeg, ond mae'r datganiad hwn yn disgrifio

amrywiaeth enfawr o brofiadau a chafodd ei wrthod oherwydd nad oedd yn dangos yn ddigonol a oedd profiad Cymraeg ar lafar yn cael ei gefnogi. Gellir deall testun amgen megis 'rhugl yn Gymraeg' neu 'yn fedrus yn Gymraeg yn y gweithle' i olygu dim ond y bobl hynny â hyder i weithio gyda Chymraeg ffurfiol a hyd yn oed sgiliau cyfieithu. Gallai'r lefel hon fod yn uwch na'r hyn mae ei angen i wneud gwaith arferol yn Gymraeg.

- 2.11 Un newid a amlygwyd gan adroddiad Prifysgol Caerdydd oedd cyfeirio at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP) (Llywodraeth Cymru, 2022) yn yr adolygiad Sbotolau diweddaraf. Yn seiliedig ar y gweithrediadau a'r effeithiau a amlinellwyd yn y cynllun ar gyfer sefydliadau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon (tu. 57-58), cafodd pum maes targed eu cynnwys yn yr arolwg at ddibenion adrodd. (C49) Cymerwyd penderfyniad i ddechrau casglu data yn seiliedig ar weithrediadau a gychwynwyd cyn neu mewn ymateb i lansio'r cynllun gweithredu yn 2022. Trafodwyd casglu data a ddelir gan amgueddfeydd ond yn seiliedig ar gyflwyniad diweddar y cynllun gweithredu, penderfynwyd, fel cam cychwynol, i gasglu'r data a oedd yn nodi bwriad a gweithrediad hyd yma. Gan fod pob arolwg yn gysylltiedig â sefydliad, byddai'r rhestr hon yn gwneud arolwg casglu data dilynol yn gymharol syml oherwydd dylai fod tystiolaeth o gynnydd mewn casgliad data yn y sector. Bydd gwybod graddau'r ymrwymiad yn y sector yn llywio gwaith datblygu yn y dyfodol yn y maes blaenoriaeth hwn.

Tabl 2.3: Cynnwys C49 newydd i gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Testun yr Arolwg
Wedi dangos ymrwymiad i wrth-hiliaeth wrth lywodraethu.
Wedi cymryd camau i grey amgylchedd gwaith cynhwysol.
Wedi casglu data gwaelodlin ar amrywiaeth ethnig yn eich gweithlu a'ch tîm llywodraethu.
Wedi mabwysiadu strategaethau recriwtio cadarnhaol ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
Wedi adolygu systemau ar gyfer adrodd ac ymdrin â chwynion o wahaniaethu.

Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022

Cefndir y Grŵp Craidd

- 2.12 Un her a oedd yn codi o ailgyhoeddi'r arolwg yn barhaus mewn fformat tebyg ers 2006 a'i ddefnydd i ddisgrifio tueddiadau yw dibynnu ar yr hyn a alwyd yn grŵp craidd at ddibenion cymharu data. Diffiniwyd y grŵp craidd yn dilyn yr ail arolwg fel yr amgueddfeydd hynny sydd eisoes wedi cwblhau'r arolwg. Felly, roedd tueddiadau dim ond yn cael eu cynrychioli o fewn corff cyson o amgueddfeydd, gan osgoi unrhyw gamgynrychiolaeth fawr wrth ychwanegu neu hepgor ymatebwr pwysig. Dros y fersiynau amrywiol, mae'r grŵp craidd hwn wedi lleihau'n anochel i'r rhai hynny â hanes di-dor o ddychwelyd yr arolwg ac mae'r grŵp hwn wedi lleihau o ran nifer o flwyddyn i flwyddyn. Mae sampl gynrychiadol sy'n cynnig gwerthusiad parhaus o ddata yn hanfodol, ond roedd y dulliau blaenorol wedi dod i ddiwedd eu defnydd. Trafodir creu a natur grŵp craidd newydd yn adran 2.23.

Amserlen

- 2.13 Agorodd yr arolwg ar 24 Chwefror 2023 a chafodd ei gau'n swyddogol ar 24 Mawrth 2023 am 5pm. Gyda chytundeb, roddwyd estyniad o un wythnos i nifer gyfyngedig o ymatebwyr a gwnaeth yr arolwg gau eto ddydd Gwener 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, ar yr adeg hon, roedd un grŵp bach ond bwysig o ymatebwyr nad oedd wedi ymateb eto a lle roedd disgwyl y gellid darparu ymateb, felly cynigwyd estyniadau unigol hyd at 5 Ebrill 2023.

Platfform yr Arolwg

- 2.14 Defnyddiodd tîm y prosiect Arolygon Ar-lein (a alwyd yn arolwg ar-lein Bryste yn flaenorol) fel y llwyfan ar gyfer cynnal yr arolwg. Roedd y feddalwedd yn gyfarwydd i'r sector amgueddfeydd gan ei bod wedi'i defnyddio ar gyfer arolwg Sbotolau 2019 ac mae'n cydymffurfio â GDPR ac wedi'i ardystio i safon ISO 29001.

Lansiad yr Arolwg

- 2.15 Cafodd amgueddfeydd rybudd bod lansiad yr arolwg yn agos gan yr Is-adran Diwylliant a'r ymgynghorwyr a oedd yn defnyddio eu rhwydweithiau. Lansiwyd yr arolwg ar ²⁴ Chwefror 2023 drwy e-bost gan yr Is-adran Diwylliant yn y fformat dwyieithog safonol. Roedd yr e-bost hwn i'r grŵp arolwg yn cynnwys dolenni sydd wedi'u mewnlannu i'r arolwg, gwahoddiad i gofrestru ar gyfer y gweithdai cymorth dwyieithog, copi o'r canllaw dechrau cyflym a chyfeiriad mewnlwch pwrpasol i gael cymorth wrth gwblhau'r arolwg neu ateb unrhyw gwestiynau.

Cymorth gyda'r arolwg

- 2.16 Cyflwynwyd dau weithdy dwyieithog rhithwir dwy awr o hyd ar ddechrau ac ar ddiwedd cyfnod yr arolwg. Yn y rhain, amlinellwyd nodau ac amcanion yr arolwg, ynghyd â newidiadau o fersiynau blaenorol, cyngor am sut i ganfod ffordd drwy'r arolwg a chanllawiau ar gwblhau'r ystod o gwestiynau ystod datganiad. Daeth y gweithdai i ben gyda chwestiynau cyffredin a sesiwn holi ac ateb. Cynhaliwyd y gweithdai'n breifat dros Zoom heb recordio'r sesiwn, er y darparwyd PDF o'r PowerPoint ar gais. Cynigwyd sesiynau cyngor unigol preifat ar ddiwedd y gweithdai pan oedd angen amdanynt ar gyfer y materion y cytunwyd eu bod yn gyfrinachol rhwng cyfranogwyr a'r tîm arolwg.
- 2.17 Darparwyd galwadau ffôn ac e-byst cefnogi ychwanegol, ac roedd y gwasanaeth hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y bobl hynny oedd yn ei chael hi'n anodd cyrchu'r platfform.

Y Gymraeg

- 2.18 Darparwyd yr holl allbynnau cyhoeddus, holiaduron a dogfennau cefnogi mewn fformat dwyieithog. Cafodd y gweithdai cefnogi eu cryfhau gan wasanaeth cyfieithu byw i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y mae eu disgwyl ym maes gwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd gwaith cyfieithu ei gyflawni gan gwmni cyfieithu ag enw da a phrofiad helaeth o'r Gymraeg sy'n aelodau llawn o'r Gymdeithas Cwmnïau Cyfieithu ac yn Aelod Corfforaethol o'r Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd.

Cyfradd ddychwelyd

- 2.19 Mae meintiau amrywiol amgueddfeydd, a nifer fwy o amgueddfeydd bychain yn y sampl a'r argaeledd cyfatebol o – a chyfyngiadau ynghylch – adnoddau ac arbenigedd, yn gallu cael effaith ar gapasiti a sgiliau (yn enwedig llythrennedd TG) wrth ymgysylltu â'r Arolwg Sbotolau. Mae gwybodaeth helaeth tîm y prosiect am y sector amgueddfeydd yng Nghymru wedi sicrhau bod y cymorth wedi'i deilwra a'r dargedu'n briodol i sicrhau cyfraddau uchel o gwblhau'r arolwg. Daeth 77 o ymatebion i law allan o'r 111 o arolygon a anfonwyd, sy'n cynrychioli cyfradd ddychwelyd o 69 y cant.

Dull dethol y grŵp craidd

- 2.20 Nod y grŵp craidd oedd creu'r sampl fwyaf posib sy'n cynrychioli'r sector. Mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, dewiswyd y meini prawf ar gyfer natur gynrychiadol. Daearyddiaeth, dull llywodraethu amgueddfa a maint yr amgueddfa oedd y rhain. Diweddarwyd proffil maint amgueddfa cyn detholiad terfynol y grŵp craidd yn seiliedig ar ddata a dderbyniwyd i sicrhau bod dadansoddi amgueddfeydd yn ôl maint yn gyfredol.

Tabl 2.4: Cyfanswm nifer yr amgueddfeydd achrededig fesul gwlad a rhanbarth daearyddol

Sir	Cyfanswm yr amgueddfeydd	Gogledd / De Cymru
Ynys Môn	4	N
Gwynedd	14	N
Conwy	4	N
Sir Ddinbych	6	N
Sir y Fflint	4	N
Wrecsam	3	N
Powys	16	N
Ceredigion	5	D
Sir Benfro	11	D
Sir Gaerfyrddin	6	D
Abertawe	4	D
Castell-nedd Port Talbot	1	D
Pen-y-bont ar Ogwr	1	D
Bro Morgannwg	1	D
Caerdydd	6	D
Rhondda Cynon Taf	6	D
Merthyr Tudful	2	D
Caerffili	1	D
Blaenau Gwent	5	D
Torfaen	3	D
Sir Fynwy	5	D
Casnewydd	3	D

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC

Tabl 2.5: Cyfanswm yr amgueddfeydd yng ngogledd a de Cymru a'r targedau arfaethedig

Lleoliad	Nifer	Canran	Arfaethedig
Gogledd	Gogledd	46%	45%
De	60	54%	55%

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC

Tabl 2.6: Dull llywodraethu amgueddfeydd a thargedau arfaethedig

Math o lywodraethu	Nifer	Canran	Arfaethedig
Annibynnol	57	51%	50%
Awdurdod Lleol	31	28%	30%
Cenedlaethol	8	7%	5%
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	11	10%	10%
Prifysgol	4	4%	5%

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC

Tabl 2.7: Maint yr amgueddfeydd ar y rhestr achrededig (cyn datganiadau 2022)

Maint	Nifer	Canran
Mawr	21	21%
Canolig	36	37%
Bach	41	42%

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC a data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC

Nodiadau tabl: Mae'r categorïau hyn yn seiliedig ar ffigurau nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd yn flynyddol o ddata rhwng 2003 a 2019, pan fydd y ffigurau hyn wedi'u darparu mewn ymateb i arolygon Sbotolau blaenorol. Bach <10,000 o ymwelwyr blynyddol, Canolig 10,000 i 50,000 o ymwelwyr blynyddol, Mawr >50,000 o ymwelwyr blynyddol.

- 2.21 Cafwyd ymatebion i'r arolwg Sbotolau 2022 gan sawl amgueddfa nad oedd wedi ymateb i arolygon Sbotolau blaenorol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n bosib i ymchwilyr ddiweddarau ffigurau ymwelwyr yn achos sawl amgueddfa, gan roi dosbarthiad mwy cynrychiadol.
- 2.22 Mae'r tîm ymchwil wedi addasu'r grŵp craidd i adlewyrchu'r carfannau hyn sydd wedi'u diweddarau. Mae hyn yn adlewyrchu hyblygrwydd y dull hwn, ac mae'r grŵp craidd yn modelu cyfansoddiad y sector yn gyson ar adeg cynnal yr arolwg.

Tabl 2.8: Maint yr amgueddfeydd ar y rhestr achrededig (gan gynnwys datganiadau 2022)

Maint	Nifer	Canran	Arfaethedig
Mawr	20	20%	20%
Canolig	35	34%	35%
Bach	47	46%	45%

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC, data Sbotolau rhwng 2022 a 2019 a ddarparwyd gan LIC a data Sbotolau 2022.

Nodiadau tabl: Mae'r categorïau hyn yn seiliedig ar ffigurau ymwelwyr blynyddol rhwng 2003 a 2022, lle mae'r data wedi'i gynnig mewn ymateb i arolygon Sbotolau blaenorol.

Bach <10,000 o ymwelwyr blynyddol, Canolig 10,000 i 50,000 o ymwelwyr blynyddol, Mawr >50,000 o ymwelwyr blynyddol.

2.23 Yn seiliedig ar y data hyn, dewiswyd targed o 50 o amgueddfeydd i'w defnyddio yn y grŵp craidd. Byddai'r amgueddfeydd yn cael eu dewis fel y byddai'r canrannau cyffredinol yn adlewyrchu cyfansoddiad y sector yng Nghymru.

Tabl 2.9: Targedau grŵp craidd yn seiliedig ar gategori a maint grŵp craidd 50 o amgueddfeydd


Categori	Nifer yr amgueddfeydd Targed
Math - Cenedlaethol	3
Math - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	5
Math - Annibynnol	25
Math - Awdurdod Lleol	15
Math - Prifysgol	2
Maint - Mawr	10
Maint - Canolog	18
Math - Bach	22
Daearyddiaeth - Gogledd	22
Daearyddiaeth - De	28

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC, a datganiadau data Sbotolau o 2022 i 2019 a ddarparwyd gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022.

Profi natur berthnasol y fethodoleg


2.24 Cymharwyd data ystod datganiad gyfartalog ar gyfer Sbotolau 2022 â'r grŵp craidd gan ddefnyddio'r fethodoleg a gymhwyswyd yn Sbotolau 2020 (yr amgueddfeydd hynny sydd wedi ymateb yn gyson yn erbyn yr holl arolygon ers 2006) a'r fethodoleg newydd i nodi i ba raddau oedd y grŵp craidd yn cynrychioli'r sector yn ei gyfanrwydd.

Ffigur 2.1: Cymhariaeth o ystod datganiad gyfartalog ar gyfer datganiadau Sbotolau 2022 gan ddefnyddio methodoleg grŵp craidd Sbotolau 2020.



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC a datganiadau arolwg Sbotolau 2022.

Ffigur 2.2: Cymhariaeth o'r ystod datganiad gyfartalog ar gyfer datganiadau Sbotolau 2022, gan ddefnyddio methodoleg grŵp craidd Sbotolau 2022.



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC a datganiadau arolwg Sbotolau 2022.

2.25 Mae'r canlyniadau'n dangos bod datblygiad y grŵp craidd dros arolygon blaenorol wedi arwain at gamgynrychiolaeth yn y sector mewn rhai meysydd, a bod ymatebion dros y blynyddoedd wedi dod yn fwy cyson gan y sefydliadau mwy, Awdurdod Lleol a Chenedlaethol. Mae'r fethodoleg newydd hon yn adlewyrchu'n

well cyfansoddiad y sector ac mae ganddi'r hyblygrwydd i ddatblygu wrth i natur y sector newid dros y blynyddoedd. Mae'r fethodoleg newydd yn cynnig tystiolaeth bod ein canlyniadau cyfartalog yn cynrychioli'r sector yn agos fel a ddiffiniwyd gan ein methodoleg graidd a gallwn ni ddefnyddio cyfartaledd ein canlyniadau o'r holl amgueddfeydd yn yr arolwg hwn yn hyderus.

Allforio Data

- 2.26 Yn dilyn cwblhau'r arolwg, allforiwyd data'r arolwg mewn fformat Excel (a fformat .csv amrwd ar ddibenion archifo) er mwyn dadansoddi'r data.

Dadansoddi'r data

- 2.27 Mae'r broses o ddadansoddi'r data wedi dilyn yr un patrwm ag adroddiadau blaenorol er mwyn cynhyrchu data y gellir ei gymharu, ond mae data wedi'u dadansoddi hefyd â'r nod o nodi unrhyw dueddiadau neu faterion newydd a allai fod wedi codi ers yr arolygon blaenorol. Mae dulliau ystadegol priodol wedi'u defnyddio i amlygu data y gellir ei ddeall orau fel tueddiadau (datganiadau ystod), fel canran o rif cyfan (mathau o amgueddfeydd) neu fel cyfansymiau (nifer yr ymwelwyr). Mae graffiau priodol wedi'u dewis sy'n gweddu orau i'r math o ddata y maen nhw'n ei gynrychioli dan arweiniad argymhellion y 'Llyfr gwyrdd' (Trysorlys EM 2022). Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol hefyd. Elfen allweddol o hyn oedd y dadansoddiad a wnaed gan ddefnyddio data'r 'Grŵp Craidd' fel y disgrifiwyd yn 2.20.
- 2.28 Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg yn hanfodol. Bydd y rhif bôn felly ar gyfer unrhyw dabl neu siart yn adran 3 lle defnyddir niferoedd amgueddfeydd yn gyfystyr â nifer yr ymatebion (n77) oni nodir yn wahanol yn nodiadau'r tabl. Pan ofynnir cwestiwn lle mae angen i'r ymatebwyr ddewis o blith set benodol o atebion, cynhwysir yr holl opsiynau a gynigiwyd yn y tabl sy'n dangos y data. Roedd rhai cwestiynau'n cynnig cwymplen, ond nid oeddynt yn hanfodol (C 8a, 14a, 15, 27, 44, 46, 47, 48, 51) ac mae'r atebion i'r cwestiynau hyn wedi'u hadrodd yn unol â hynny. Roedd dau gwestiwn nad oeddynt yn hanfodol, nid oedd ganddynt gwymplen ac nid oeddynt yn cynnig atebion testun rhydd. Roedd y ddau gwestiwn hyn (22 a 29) yn gofyn i'r ymatebwr nodi a ddefnyddiwyd blwyddyn ariannol wahanol (C22) ac yn holi am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (C29b).
- 2.29 Roedd 15 o gwestiynau testun rhydd ac nid oeddynt yn hanfodol, felly roedd yr holl gwestiynau testun rhydd wedi'u dewis gan yr ymatebwyr eu hunain. Mae'r holl sylwadau testun rhydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Er bod y rhif bôn yn parhau'n gyson (n77) mae'r data testun rhydd wedi'i adrodd ar sail cyfansymiau neu restrau ac nid fel data canrannol. Mae rhannau o'r data testun rhydd wedi'u codio i greu darlun cynrychioliadol o arfer y sector.

- 2.30 Nid yw'r sylwadau testun rhydd wedi'u hadrodd yn llawn yn yr adroddiad hwn. Dewiswyd enghreifftiau i dynnu sylw at themâu neu faterion. Tynnwyd enwau'r amgueddfeydd o'r testun rhydd a dynodir hyn â '[enw]' yn y testun. Mae hyn yn osgoi nodi amgueddfeydd unigol ac yn osgoi dyfyniadau gormodol. Roedd yr ymatebion testun rhydd yn cynnwys tua 14,000 o eiriau. Mae'r sylwadau testun rhydd wedi'u cofnodi'n llawn yn yr arolwg ac wedi'u rhoi i Lywodraeth Cymru fel y gallai eu dadansoddi yn y dyfodol.
- 2.31 Mae arolygon sbotolau blaenorol wedi casglu data o amrywiaeth o amgueddfeydd, gan gynnwys rhai achrededig a rhai nad ydynt yn achrededig, yn ogystal â rhai sefydliadau nad ydynt yn bodoli mwyach ar ffurf amgueddfa. Er mwyn darparu mesur cyson o newidiadau mewn sgoriau'r datganiadau ystod dros yr 20 mlynedd diwethaf, cafodd y data a ddarparodd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymatebion i arolygon sbotolau rhwng 2002 a 2019 eu hail-ddadansoddi. Casglwyd sgoriau'r datganiadau ystod ar gyfer yr holl amgueddfeydd sydd ar y rhestr achrededig ar hyn o bryd, o'r ymatebion blaenorol a chyfredol i'r arolygon sbotolau, a chawsant eu defnyddio i ailgyfrifo sgoriau cyfartalog y datganiadau ystod, yn unol â math llywodraethu'r amgueddfa a maint yr amgueddfa ar gyfer pob blwyddyn y cynhaliwyd yr arolygon sbotolau. Mae hyn yn sicrhau bod y data a gesglir o'r grŵp o amgueddfeydd sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu'r sector amgueddfeydd yn cael ei gymharu dros amser ac yn rhoi mesur mwy cadarn o newid.

Cyfleu'r canfyddiadau: Cyfarfodydd sector

- 2.32 Cynhaliwyd cyfarfodydd â rhanddeiliaid y sector i roi gwybod am y canfyddiadau ar y cyd â Chymdeithas yr Amgueddfeydd a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, yn ogystal â'r rhai a gymrodd rhan yn yr arolwg. Bwriad y cyfarfodydd hyn oedd trafod y canfyddiadau a dangos pwysigrwydd yr arolwg wrth ddatblygu dealltwriaeth o waith presennol y sector amgueddfeydd, ei lwyddiannau a'r heriau, ynghyd â'r cymorth sydd ei angen arno.

Cyfleu'r canfyddiadau: Taflenni data sector terfynol

- 2.33 Diben yr adroddiadau hyn yw cyfleu'r data ynglŷn â'r sector fesul cyfres o themâu sectoraidd a chymdeithasol. Mae prif Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) yn cynnwys ac yn adrodd ar ddata hollbwysig sy'n disgrifio cynnydd a swyddogaethau'r sector amgueddfeydd ac yn ein galluogi i feincnodi a datblygu metrigau cyflawni.

2.34 Yn unol â hynny, dewiswyd pum maes thema i lunio adroddiadau effeithiol sy'n ymwneud â'r sector yn uniongyrchol. Roedd y negeseua a'r gwaith o adrodd ar y data yn cynnwys ffeithluniau i gyfleu'r wybodaeth yn fwy helaeth. Nodwyd bod y meysydd canlynol yn rhai sy'n bodloni'r briff:

1. amgueddfeydd sy'n sbardun economaidd: Gwirfoddolwyr, amgueddfeydd ac effaith economaidd
2. amgueddfeydd sy'n hwb ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
3. amgueddfeydd sy'n grymuso dysgu
4. effeithiau Covid-19, gwydnwch ac adfer - y camau nesaf
5. casgliadau sy'n adnoddau cenedlaethol ar gyfer Cymru - tueddiadau a phosibiliadau.

2.35 Mae llawer o feysydd casglu data pwysig eraill wedi'u cipio gan arolwg Sbotolau 2022. Caiff yr holl ddata eu cipio yn yr adroddiad, ond gellir cynhyrchu adroddiadau sector ychwanegol ar sail thema o hyd.

3. Canfyddiadau a dehongli

Daeth 77 o ymatebion i law allan o'r 111 o arolygon a anfonwyd, sy'n cynrychioli cyfradd ddychwelyd o 69 y cant. Roedd dosbarthiad y gyfradd ddychwelyd yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol yn ogystal â math llywodraethu'r amgueddfa.

Ymatebion

Tabl 3.1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl sir

Sir	Nifer yr amgueddfeydd	Ymatebion	Canran
Ynys Môn	4	1	25%
Gwynedd	14	11	79%
Conwy	4	3	75%
Sir Ddinbych	6	2	33%
Sir y Fflint	4	3	75%
Wrecsam	3	1	33%
Powys	16	10	63%
Ceredigion	5	4	80%
Sir Benfro	11	5	45%
Sir Gaerfyrddin	6	6	100%
Abertawe	4	4	100%
Castell-nedd Port Talbot	1	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1	100%
Bro Morgannwg	1	1	100%
Caerdydd	6	6	100%
Rhondda Cynon Taf	6	6	100%
Merthyr Tudful	2	2	100%
Caerffili	1	1	100%
Blaenau Gwent	5	1	20%
Torfaen	3	2	67%
Sir Fynwy	5	4	80%
Casnewydd	3	3	100%
Cyfanswm	111	77	69%

Ffynhonnell: Data o Restr Amgueddfeydd Achrededig LIC, arolwg Sbotolau 2022

- 3.1 Roedd yna wahaniaeth yn y gyfradd ymateb yn ôl ardal ddaearyddol, a oedd yn fwy na'r disgwyl, hyd yn oed o ystyried maint y data, ac ni chafwyd cyfradd ymateb o 100% yn yr un o siroedd gogledd Cymru.

Tabl 3.2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o lywodraethu

Math	Cyfanswm	Ymatebion	Canran
Annibynnol	57	34	60%
Awdurdod Lleol	31	25	81%
Cenedlaethol	8	7	88%
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	11	7	64%
Prifysgol	4	4	100%
Cyfanswm	111	77	69%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022, C3

Nodiadau tabl: Amgueddfeydd wedi'u cymryd o restr o amgueddfeydd achrededig a ddarparwyd gan yr Is-adran Diwylliant

- 3.2 Gwelwyd y gyfradd ymateb isaf ymhlith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac amgueddfeydd annibynnol a'r gyfradd ymateb uchaf ymhlith prifysgolion.
- 3.3 Y gred yw bod hyn yn ganlyniad i drefnu casglu'r data yn ystod y cyfnod cau yn ogystal â diffyg manylion cyswllt cyfredol ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel sy'n cael ei grybwyll yn adran 3 ac adran 4.

Tabl 3.3: Ymatebion i'r arolwg yn ôl maint yr amgueddfa

Maint	Nifer Ymatebion
Mawr	16
Canolig	21
Bach	40
Cyfanswm	77

Ffynhonnell: Data arolygon Sbotolau rhwng 2002 a 2019, a ddarparwyd gan LIC a data arolwg Sbotolau 2022. Nodiadau tabl: Mae'r categorïau hyn yn seiliedig ar ffigurau ymwelwyr blynyddol rhwng 2003 a 2022, lle mae'r data wedi'i gynnig mewn ymateb i arolygon Sbotolau blaenorol.

Bach <10,000 o ymwelwyr blynyddol, Canolig 10,000 i 50,000 o ymwelwyr blynyddol, Mawr >50,000 o ymwelwyr blynyddol.

Tabl 3.4: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal ddaearyddol a math o lywodraethu

	Cyfanswm gogledd Cymru			Cyfanswm de Cymru		
	Cymru	Ymatebion	Canran	de Cymru	Ymatebion	Canran
Annibynnol	29	16	55%	28	18	64%
Awdurdod Lleol	13	9	69%	18	16	89%
Cenedlaethol	1	1	100%	7	6	86%
Ymddiriedolaeth						
Genedlaethol	7	3	43%	4	4	100%
Prifysgol	1	1	100%	3	3	100%
Cyfanswm	Gogledd	30	59%	60	47	78%

Ffynhonnell: arolwg Sbotolau 2022

Nodiadau tabl: Categoriâu'r amgueddfeydd wedi'u cymryd o restr o amgueddfeydd achrededig a ddarparwyd gan yr Is-adran Diwylliant

- 3.4 Wrth edrych yn fanylach ar ddsbarthiad yr ymatebion yn ôl ardal ddaearyddol a math o lywodraethu, gweler y caiff gogledd Cymru ei thangynrychioli o ran yr ymatebion o gymharu â de Cymru. Mae'r gwahaniaeth canrannol mwyaf i'w weld rhwng eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yna eiddo'r Llywodraeth Leol ac amgueddfeydd annibynnol.
- 3.5 Mae'r dadansoddiad ansoddol yn awgrymu y gallai amserlen yr arolwg fod wedi effeithio ar yr amgueddfeydd llai ac annibynnol (sy'n fwy tebygol o gael eu cynnal gan wirfoddolwyr) gan yr oedd cyfnod yr arolwg yn cyd-fynd â chyfnod cau'r amgueddfeydd hynny sydd ar agor yn dymhorol pan nad oedd gwirfoddolwyr yn debygol o fod ynddynt. Mae'r data ansoddol o'r adborth a gafwyd gan y rheiny a fu'n destun yr arolwg yn awgrymu bod trosiant staff a'r llwyth gwaith hefyd yn ffactorau o ran gallu amgueddfa i gwblhau'r arolwg oherwydd diffyg capasiti i gwblhau darn ychwanegol o waith yn yr amser a gafwyd.

Ymwelwyr â'r amgueddfeydd

Tabl 3.5: Patrwm agor arferol yr amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg

Patrwm agor	Nifer yr amgueddfeydd	Canran yr ymatebion
Ar agor drwy'r flwyddyn	48	62%
Ar agor drwy apwyntiad yn unig - drwy gydol y flwyddyn	1	1%
Ar agor am ran o'r flwyddyn - cyfnod cau tymhorol rheolaidd	28	36%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C4

Nodiadau tabl: Efallai nad yw'r canrannau'n dod i 100% oherwydd talgrynnu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Sut fydddech chi'n disgrifio patrwm gweithredu arferol eich amgueddfa?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrwyd yn y tabl.

Tabl 3.6: Patrwm agor arferol yn ôl math o lywodraethu

Math	Flwyddyn Gyfan	Rhan o'r Flwyddyn	Apwyntiad yn unig	Nifer
Annibynnol	19	15		0
Awdurdod Lleol	18	7		0
Cenedlaethol	7	0		0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	2	5		0
Prifysgol	2	1		1

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C4

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Sut fydddech chi'n disgrifio patrwm gweithredu arferol eich amgueddfa?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrwyd yn y tabl.

- 3.6 Gallai'r ganran uwch (62 y cant) o ymatebwyr a nododd fod yr amgueddfa ar agor drwy gydol y flwyddyn yn 2022 adlewyrchu amseru'r arolwg ym mis Mawrth pan mae'r rhan fwyaf o'r amgueddfeydd sydd ar agor yn dymhorol ar gau, a'r ffaith mai amgueddfeydd achrededig yn unig oedd yn gallu cymryd rhan yn yr arolwg eleni yn hytrach na phob sefydliad sy'n cael ei ystyried yn 'amgueddfa'.
- 3.7 Roedd arolwg 2019 yn cynnwys 56 y cant o amgueddfeydd oedd ar agor drwy gydol y flwyddyn a 31 y cant o amgueddfeydd oedd ar agor yn dymhorol.

Tabl 3.7: Tarfu ar batrymau agor yn ystod 2022 yn ôl math o lywodraethu

Math	Ni tharfwyd ar batrwm agor	Tarfwyd ar batrwm agor	Nifer
Annibynnol	24		10
Awdurdod Lleol	16		9
Cenedlaethol	0		7
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	7		0
Prifysgol	3		1

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C5

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A darfwyd ar eich patrymau gweithredu arferol eleni (oherwydd ailddatblygu, er enghraifft)?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 'Do' neu 'Naddo'.

- 3.8 Cafwyd lefel fesuradwy o darfu ar wasanaethau, a nododd traean o'r amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg y bu tarfu ar batrymau agor yn 2022.
- 3.9 Nid oes data penodol pellach, ond mae atebion testun rhydd i C55 'Beth rydych chi'n ystyried yw'r heriau mwyaf i'ch amgueddfa chi yn y ddwy flynedd nesaf?' yn awgrymu rhai rhesymau. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys bod rhai amgueddfeydd yn destun tarfu drwy waith adeiladu ac ailddatblygu, salwch staff yn ystod pandemig Covid-19, problemau sy'n ymwneud â swyddi gwag a heriau ynghylch ailagor wedi'u hadrodd hefyd ac yn debygol o fod wedi bod yn ffactorau dylanwadol o ran tarfu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Tabl 3.8: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol), gwirioneddol ac amcangyfrif, yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn

Math	2018		2019		2020		2021		2022	
	Gwirionedd ol	Amcangyfrif	Gwirionedd ol	Amcangyfrif	Gwirionedd ol	Amcangyfrif	Gwirionedd ol	Amcangyfrif	Gwirionedd ol	Amcangyfrif
Annibynnol	534,474	173,997	581,860	162,918	105,184	73,722	244,171	110,814	431,640	177,883
Awdurdod Lleol	930,868	91,573	898,890	84,406	120,363	29,078	266,162	42,995	552,220	100,922
Cenedlaethol	1,788,115	0	1,946,429	0	349,214	0	516,654	0	1,181,207	0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	539,675	0	602,443	0	70,785	200	366,706	0	391,482	126,090
Prifysgol	0	60,605	0	56,574	0	0	14,841	22,000	15,249	35,070

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr canlynol'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a'r rhif 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

3.10 Mae'r tabl yn dangos bod y data amcangyfrifedig yn isel. Yn 2022 mae'r data amcangyfrifedig yn cyfrannu llai na 15 y cant o'r ffigur terfynol. Mae mwy o amgueddfeydd â niferoedd ymwelwyr isel yn dibynnu ar amcangyfrifon, tra bod gan yr amgueddfeydd Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol niferoedd ymwelwyr manwl, er bod data'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer 2020 a 2022 yn cynnwys ffigur amcangyfrifedig. Mae'r dadansoddiad graff rhagnodedig a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn defnyddio cyfansymiau o'r ffigurau cyfunol ar gyfer data gwirioneddol ac amcangyfrifedig i ddatgelu'r patrwm mwyaf tebygol o ffigurau ymwelwyr. Mae'r defnydd cyfunol o ddata gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'i nodi yn nodiadau'r tabl.

Tabl 3.9: Cyfanswm y ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn

Math	2018	2019	2020	2021	2022
Annibynnol	708,471	744,778	178,906	354,985	609,523
Awdurdod Lleol	1,022,441	983,296	149,441	309,157	653,142
Cenedlaethol	1,788,115	1,946,429	349,214	516,654	118,1207
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	539,675	602,443	70,985	366,706	517,572
Prifysgol	60,605	56,574	0	36,841	50,319
Cyfanswm	4,119,307	4,333,520	748,546	1,584,343	3,011,763

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6


Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr canlynol'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a'r rhif 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

Mae cyfanswm y ffigur blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol a'r amcangyfrifon.

3.11 Mae tabl 3.9 a ffigur 3.1 yn dangos effaith pandemig Covid-19 ar ymwelwyr ag amgueddfeydd yng Nghymru, gan amlygu'r cyfnod adfer yn ogystal â'r diffyg.

Safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi adfer orau ers ffigurau cyn pandemig Covid-19.

Ffigur 3.1: Cyfanswm yr ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn



Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6

Tabl 3.10: Adferiad mewn ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn

Math	2020	2021	Canran 2022
Annibynnol	24%	48%	82%
Awdurdod Lleol	15%	31%	66%
Cenedlaethol	18%	27%	61%
Ymddiriedolaeth			
Genedlaethol	12%	61%	86%
Prifysgol	0%	65%	89%
Cyfanswm	17%	37%	69%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6

Nodiadau tabl: Gan ddefnyddio cyfanswm y ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 fel gwaelodlin, gweler effaith pandemig Covid-19, ac nid yw'r ffigurau wedi adfer eto i'r lefelau cyn pandemig Covid-19. Mae'r ffigur blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol a'r amcangyfrifon. Mae'r cyfanswm yn cynrychioli'r holl fathau o amgueddfeydd wedi'u cyfuno.

3.12 Mae'r tabl yn dangos adferiad cadarn rhwng 2021 a 2022 o ran ffigurau ymwelwyr ar draws yr holl fathau o lywodraethu. Caiff y data hwn ei ategu gan sylwadau gan ymatebwyr megis 'mae'r niferoedd wedi mwy na dyblu yn ystod cyfnod 22/23'. Yn gyffredinol, mae adferiad wedi cyrraedd 69 y cant ers lefelau cyn pandemig Covid-19, ond mae amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, rhai annibynnol a rhai prifysgolion wedi cyrraedd cyfradd adfer o 80 y cant (yn agos at ffigur ALVA isod). Gan mai dim ond pedwar ymateb a ddaeth i law gan amgueddfeydd prifysgolion, mae'n bwysig peidio ag amlygu hyn yn ormodol fel tueddiad. Fodd

bynnag, gellir cymryd bod cynlluniau adfer sefydliad cyfan yn dylanwadu ar ddychwelyd i addysgu a mynediad at adnoddau fel llyfrgelloedd a chasgliadau.

- 3.13 Mae data'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn wahanol oherwydd dechreuwyd ar yr adferiad yn gynt na nifer o safleoedd eraill gydag adferiad sylweddol ar waith yn 2021 (o 12 i 61 y cant) ac yn parhau yn 2022. Credir bod yr adferiad ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn deillio o'r faith bod pob un o'i safleoedd yn gwneud defnydd sylweddol o'r awyr agored. Mae'n nodedig bod holl safleoedd AC-MW wedi rhoi gwybod am darfu wrth agor yn 2022. Mae'n ymddangos hefyd bod niferoedd ymwelwyr amgueddfeydd Awdurdodau Lleol ar eu hól hi ar 66 y cant o gymharu â rhannau eraill o'r sector.
- 3.14 Dangosodd [Ffigurau Ymwelwyr](#) ALVA 2022 (ALVA n.d. (a), ALVA n.d. (b)) fod atyniadau mawr (dros 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn) wedi gweld cynnydd cyffredinol o 69 y cant mewn ymwelwyr ers 2021, ond roedd niferoedd ymwelwyr yn parhau i fod 23 y cant yn llai na ffigurau ymwelwyr 2019, cyn pandemig Covid-19. Yn 2022, gwelwyd y twf/adferiad mwyaf ymhlith atyniadau dan do o gymharu â 2021, gydag atyniadau awyr agored (a oedd yn gyffredinol ar agor yn llawn yn 2021) yn gweld llai o dwf.
- 3.15 Yng Nghymru, [gwelwyd adferiad cadarn](#) ar safleoedd Cadw o 2021 i 2022 a 2022 i 2023, gyda ffigurau ymwelwyr yn cyrraedd 92 y cant o'r lefelau cyn pandemig Covid-19. Mae adferiad safleoedd Cadw yn cydymffurfio mwy â safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hytrach na'r sector amgueddfeydd yn gyffredinol.

Tabl 3.11: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein), gwirioneddol ac amcangyfrifon yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn

Math	2018		2019		2020		2021		2022	
	Gwirionedd ol	Amcangyfr if	Gwirionedd ol	Amcangyfr if	Gwirionedd ol	Amcangyfr if	Gwirionedd ol	Amcangyfr if	Gwirionedd ol	Amcangyfr if
Annibynnol	40,939	514,996	46,944	573,632	247,485	550,914	203,424	334,354	464,566	256,305
Awdurdod Lleol	81,368	85,092	80,753	86,092	59,928	294,092	168,855	332,092	199,813	264,342
Cenedlaethol	3,591,677	0	4,044,783	0	1,746,450	0	3,058,014	0	3,514,669	0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	149,314	0	162,502	0	96,046	0	203,636	0	180,503	0
Prifysgol	0	120,500	0	120,000	129,819	19,000	108,200	19,500	175,486	22,000

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr canlynol'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a'r rhif 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

Mae hyn yn cynnwys rhyngweithiadau ar draws yr holl ffurfiau o ddarpariaeth ar-lein / y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd allanolyn o 10,000,000 o ryngweithiadau ar gyfer amgueddfa fach ei dynnu oherwydd credwyd ei fod yn wall yn y data.

- 3.16 Mae ffigurau ymwelwyr ar-lein yn cynnwys cyfran uwch o ddata amcangyfrifedig nag ar gyfer ymwelwyr mewn person. Gallai amgueddfeydd yn gyffredinol wynebu mwy o her wrth gipio data monitro go iawn o ymgysylltiad ar-lein, o ystyried yr ystod eang o weithgareddau y gallai hyn ei gynnwys. Rhoddwyd arweiniad i ymatebwyr y gallai ffigurau ymwelwyr ar-lein gynnwys gweithgaredd ar draws yr holl ffurfiau o ryngweithio a darpariaeth ar-lein. Ar hyn o bryd, nid oes yr un dull safonol mewn amgueddfeydd Cymru o gipio rhyngweithiadau ar-lein, felly dylid dehongli'r ffigurau hyn â gofal. Roedd ymatebion o amgueddfeydd cenedlaethol yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol, sy'n awgrymu bod gan y sefydliadau mwy seilwaith TG gwell i gasglu'r data hyn yn fanwl gywir.
- 3.17 Mae'r dadansoddiad graff rhagnodedig a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn defnyddio cyfansymiau ffigurau cyfunol ar gyfer data gwirioneddol ac amcangyfrif i ddatgelu'r patrwm mwyaf tebygol o ffigurau ymwelwyr digidol. Mae'r defnydd cyfunol o ddata gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'i nodi yn nodiadau'r tabl.

Tabl 3.12: Cyfanswm y ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn

Math o lywodraethu	2018	2019	2020	2021	2022
Annibynnol	555,935	620,576	798,399	537,778	720,871
Awdurdod Lleol	166,460	166,845	354,020	500,947	464,155
Cenedlaethol	3,591,677	4,044,783	1,746,450	3,058,014	3,514,669
Ymddiriedolaeth					
Genedlaethol	149,314	162,502	96,046	203,636	180,503
Prifysgol	120,500	120,000	148,819	127,700	197,486
Cyfanswm	4,583,886	5,114,706	3,143,734	4,428,075	5,077,684


Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr canlynol'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a'r rhif 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

Mae cyfanswm y ffigur blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol a'r amcangyfrifon.

Mae hyn yn cynnwys rhyngweithiadau ar draws yr holl ffurfiau o ddarpariaeth ar-lein / y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd allanolyn o 10,000,000 o rhyngweithiadau ar gyfer amgueddfa fach ei dynnu oherwydd credwyd ei fod yn wall yn y data.


Ffigur 3.2: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn



Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C6


3.18 Mae patrwm y rhyngweithiadau ar-lein blynyddol yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o lywodraethu, er bod lefelau 2022 ar gyfer y sector yn gyffredinol erbyn hyn yn cyfateb i'r lefel a gyrhaeddwyd yn 2019. Tyfodd rhyngweithiadau ar-lein amgueddfeydd annibynnol a rhai Awdurdod Lleol o 2019 i 2020, gan ddisgyn yn 2021 cyn dychwelyd i lefelau uwch na 2019 yn 2022. Mae rhyngweithiadau ar-lein wedi adfer yn gynt nag ymweliadau mewn person ag amgueddfeydd.

Ffigur 3.3: Newid yn natganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol dros amser yn ôl math o lywodraethu



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC a C7 arolwg Sbotolau 2022

Ffigur 3.4: Newid yn natganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol dros amser yn ôl maint amgueddfa



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC a C7 arolwg Sbotolau 2022

- 3.19 Mae'r datganiad ystod hwn yn cipio data ynglŷn â pherfformiad ar draws ystod o ddangosyddion marchnata a chyfathrebu. Byddai sgôr o 3 yn dynodi bod yr amgueddfa yn cynnal rhywfaint o waith ymgynghori â defnyddwyr ac ymchwil marchnad sy'n arwain at hyrwyddiadau sydd wedi'u cynllunio. Mae sgoriau uwch yn dynodi eu bod yn cynnal arolygon, yn gwerthuso ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa darged yn fwy rheolaidd.
- 3.20 Amgueddfeydd cenedlaethol ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd â'r lefel uchaf o arfer o hyd o ran gweithgareddau datblygu cynulleidfa a marchnata

strategol, ond mae'r tuedd cyffredinol ar gyfer y datganiad ystod hwn wedi disgyn rhywfaint ers 2019. Dywedodd saith deg un y cant o'r amgueddfeydd a gymrodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cynnal ymchwil cynulleidfa swyddogol yn y 12 mis diwethaf. Mae'r arfer sy'n cael ei adrodd gan yr amgueddfeydd yn yr arolwg yn cydymffurfio â'r safonau achredu, ond gallai'r tuedd ar i lawr gael effaith negyddol ar y potensial i dyfu cynulleidfa a datblygu yn y dyfodol. Gallai diffyg capasiti amgueddfeydd i gynnal ymchwil marchnad y tu hwnt i lefel sylfaenol (sydd ei hangell i gael sgôr uwchben 4) gyfrannu at y tuedd hwn.

Tabl 3.13: Nifer o amgueddfeydd sydd wedi cynnal ymchwil cynulleidfa

Math o lywodraethu	Nifer	Canran
Annibynnol	24	71%
Awdurdod Lleol	17	68%
Cenedlaethol	7	100%
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	5	71%
Prifysgol	2	50%
Cyfanswm	55	71%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C8

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych chi wedi cynnal unrhyw ymchwil cynulleidfa/ymwelwyr swyddogol i bennu demograffig ymwelwyr â'ch amgueddfa yn y flwyddyn ddiwethaf?'

Mae'r ganran yn cyfeirio at y ganran o'r math hwnnw o sefydliad sydd wedi cynnal ymchwil.

Tabl 3.14: Y mathau o ymchwil cynulleidfa sydd wedi'i gynnal gan yr amgueddfeydd

Math o lywodraethu	Nifer yr amgueddfeydd				
	Ymchwil Cynradd	Ymchwil Eilaidd	Ymchwil Meintiol	Ymchwil Ansoddol	Segmentiad
Annibynnol	15	8	9	7	6
Awdurdod Lleol	11	12	6	3	6
Cenedlaethol	7	7	7	7	7
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	3	0	3	2	4
Prifysgol	1	0	1	0	0

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C8a

Nodiadau tabl: Lle'r oedd ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi cynnal ymchwil ffurfiol, gofynnwyd iddynt ateb cwestiwn ategol, sef 'Pa rai o'r canlynol rydych chi wedi'u cynnal'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pob un oedd yn berthnasol.

Ymchwil cynradd: megis arolwg ymwelwyr

Ymchwil eilaidd: defnyddio ymchwil sydd eisoes yn bodoli

Ymchwil meintiol: mesuriadau megis mae 33 y cant o ddefnyddwyr mewn grwpiau teulu

Ymchwil ansoddol: cwestiynau a themâu ehangach

Segmentiad: deall eich ymwelwyr fel grwpiau

Trosolwg ariannol

Tabl 3.15: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu

	2017 i 18	2018 i 19	2019 i 20	2020 i 21	2021 i 22
Annibynnol	£91,158	£99,521	£98,380	£98,065	£103,332
Awdurdod Lleol	£187,477	£182,148	£182,766	£185,200	£201,119
Cenedlaethol	£3,281,866	£3,621,866	£3,618,294	£3,744,366	£4,075,866
Ymddiriedolaeth					
Genedlaethol	£1,313,808	£306,313	£383,000	£342,804	£291,910
Prifysgol	£30,458	£32,704	£36,365	£41,078	£39,179
Cyfanswm	£4,904,767	£4,242,551	£4,318,806	£4,411,512	£4,711,406

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C21

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch eich ffigurau cyllideb gweithredu safonol'. Mae rhai arolygon wedi cynnwys ffigurau negyddol neu '0' ar gyfer cyllidebau gweithredu, ond mae'r rhain wedi'u cynnwys gan nad yw'r sefyllfa wirioneddol yn glir. Mae'r adroddiad uchod yn cynnwys ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno.

- 3.21 Mae gwybodaeth ariannol gyson yn anodd ei chipio ar draws amrywiaeth wahanol o amgueddfeydd, sydd yn aml â dulliau gwahanol o gadw cyfrifon a gwahanol flynyddoedd ariannol. Dylid darllen y wybodaeth ariannol mewn modd mynegol. Mae'r atebion yn dueddol o fod yn debyg o un flwyddyn i'r llall, felly er nad yw'r cyfansymiau'n union gywir, mae'n debygol bod y tueddiadau'n hysbysol. Rhoddir gwybodaeth am gyllidebau ar ffurf niferoedd cyfartalog gan fod sawl amgueddfa'n gweithredu cyllidebau canolog, sy'n cwmpasu sawl safle. Gallai rhai elfennau o'r cyllidebau weithredu'n ganolog, ond gallai elfennau eraill gael eu trosglwyddo i safleoedd unigol.
- 3.22 Mae'n ymddangos bod cyllidebau amgueddfeydd annibynnol wedi aros yr un fath rhwng 2018 a 2021. Gellir priodoli'r ffigur hwn sydd, i raddau helaeth, wedi bod yn gyson yn ystod pandemig Covid-19, i'r ystod o arian cymorth oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn i helpu gyda'r pandemig. Gweler twf bach o 2021 i 2022 er nad yw'n cydymffurfio â phwysau chwyddiant. Mae cyllidebau amgueddfeydd Awdurdodau Lleol i raddau helaeth yn adlewyrchu patrwm amgueddfeydd annibynnol, gan aros yn segur rhwng 2018 a 2021 a rhywfaint o dwf o 2021 i 2022. Gweler cwmp nodedig mewn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond gallai hyn adlewyrchu nifer a maint yr eiddo sy'n cwblhau'r arolwg, yn ogystal â gwaith ailwampio / cyllido mewn eiddo penodol. Amgueddfeydd prifysgolion yw'r unig grŵp arall sy'n dangos gostyngiad mewn cyllidebau gweithredu cyfartalog o 2020 i 2021 i 2021 i 2022.

Effaith economaidd

- 3.23 Dim ond wyth amgueddfa a atebodd eu bod wedi defnyddio [Pecyn Cymorth Effaith Economaidd AIM](#) (AIM - Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, 2019). Darparodd

saith amgueddfa gyfanswm eu heffaith economaidd, gan gyfrifo cyfraniad o £3,676,518 at eu heconomiâu lleol.

- 3.24 Mae'r pecyn cymorth yn nodi dull syml o helpu amgueddfeydd i amcangyfrif yr effaith economaidd y maen nhw'n ei chael ar eu heconomi leol. Lluniwyd y pecyn cymorth yn wreiddiol yn 2010 a'i addasu yn 2014. Cafodd fersiwn newydd ei lansio yn 2019 a oedd yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddarau am fetrigau gwariant twristiaeth, ond mae'n cynnal yr un dull cyffredinol. Mae'n cynnig fformiwlâu ymwelwyr, fformiwla nwyddau a gwariant a fformiwla cyflogaeth. Mae'n helpu amgueddfeydd i fynegi effaith yr ymweliadau â'u hamgueddfeydd yn nhermau gwerth economaidd.
- 3.25 Mae amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad pwysig at economi Cymru yn ogystal ag economi leol yr amgueddfa. Maen nhw'n denu pobl leol yn ogystal â thwristiaid ac yn rhoi hwb i wariant ymwelwyr. Mae'r gwariant hwn yn fuddiol i fusnesau eraill, yn enwedig yn y diwydiant lletygarwch a gwestai.

Tabl 3.16: Newid mewn cymorth gan yr Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu

Math	Wedi codi	Wedi disgyn	Aros yr un peth	Nifer yr amgueddfeydd	
				Dd/B (Dim Cymorth gan yr	ALI)
Annibynnol	2	9	14		9
Awdurdod Lleol	5	10	10		0
Cenedlaethol	1	0	6		0
Ymddiriedolaeth					
Genedlaethol	0	0	0		7
Prifysgol	0	0	1		3

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C26

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ers arolwg Sbotolau 2020, mae cymorth gan yr Awdurdod Lleol wedi...' a gofynnwyd iddynt ddewis un o'r opsiynau oedd wedi'u rhestru yn y tabl.

Tabl 3.17: Mathau o gymorth gan yr Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu

Nifer yr amgueddfeydd

	Cyllid refeniw rheolaidd	Rhyddhad ardrethi	Mentor Amgueddfa	Meddiannu'r adeilad am ddim / cost isel	Costau cynnal a chadw'r adeilad	Arall
Annibynnol Awdurdod Lleol	5	20	3	9	4	5
Cenedlaethol Ymddiriedolaeth	19	0	0	5	12	4
Genedlaethol Prifysgol	1	7	0	0	0	0
	0	0	0	0	0	0
	0	0	1	0	0	0
Cyfanswm	25	27	4	14	16	9

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C27

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Os yw'r amgueddfa'n derbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol, pa fath o gymorth ydyw? Gofynnwyd i'r ymatebwyr dicio pob dewis perthnasol o'r opsiynau oedd wedi'u rhestru yn y tabl.

- 3.26 Derbyniodd saith deg pump y cant o amgueddfeydd a gwblhaodd Sbotolau 2022 gymorth gan eu Hawdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys amgueddfeydd sy'n cael eu cynnal fel gwasanaeth yr Awdurdod Lleol. O'r rheiny oedd yn derbyn cymorth, adroddodd 15 y cant gynnydd mewn lefelau cymorth, gwelodd 33 y cant ostyngiad mewn cymorth a dywedodd 52 y cant fod y lefelau cymorth wedi aros yr un fath. Mae'r rhan fwyaf o gymorth yn dod ar ffurf rhyddhad ardrethi, ac yna cyllid refeniw rheolaidd a chynnal a chadw adeiladau a meddiannaeth.
- 3.27 Mae'r data'n dangos bod cymorth llywodraeth leol ar gyfer y sector amgueddfeydd yng Nghymru yn eang, ac yn mynd ymhell tu hwnt i'r amgueddfeydd hynny y mae'n eu hariannu'n uniongyrchol.

Tabl 3.18: Amgueddfeydd sy'n codi tâl am fynediad cyffredinol yn ôl math o lywodraethu

Math	Canran o'r cyfanswm	
	Ydy	Nac ydy
Annibynnol	21%	23%
Awdurdod Lleol	8%	25%
Cenedlaethol	0%	9%
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	9%	0%
Prifysgol	0%	5%
Cyfanswm	38%	62%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C19

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A yw eich amgueddfa fel arfer yn codi tâl am fynediad cyffredinol'.

- 3.28 Mae hyn yn cymharu â 46 y cant ar draws y sector yn codi tâl yn ôl adroddiad Sbotolau 2020 a 54 y cant ddim yn codi tâl. Gallai'r gostyngiad ddeillio o ostyngiad mewn ymatebion i arolwg 2022 gan eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (o 13 yn 2019 i 7 yn 2022), ac roedd pob un ohonynt yn codi tâl mynediad.
- 3.29 Yn ôl ymchwil Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol i effaith Codi Tâl Mynediad i Amgueddfeydd yng Nghymru ([Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol 2016](#)) mae 57 y cant o amgueddfeydd yng Nghymru yn codi tâl mynediad. Roedd ymchwil AIM yn 2016 yn seiliedig ar sampl o 53 o amgueddfeydd yng Nghymru, ac roedd 58 y cant ohonynt yn amgueddfeydd annibynnol. Mae mwy o amgueddfeydd annibynnol yn cymryd rhan yn arolwg AIM nag arolwg Sbotolau 2022 (44 y cant), a gallai hyn gyfrannu at y gwahaniaeth mewn ffigurau.

Tabl 3.19: Amgueddfeydd sy'n codi tâl ar arddangosfeydd neu wasanaethau yn ôl math o lywodraethu

Math	Nac ydy	Arddangosfeyd		Ymweliada		Arall
		d dros dro / arbennig	Digwyddiad au	u addysgol ffurfiol	Trafodaeth au	
Annibynnol	14	1	10	10	12	8
Awdurdod Lleol	5	1	15	15	9	9
Cenedlaethol	0	1	7	7	7	0
Ymddiriedolaeth						
Genedlaethol	1	1	6	4	2	0
Prifysgol	3	0	1	1	1	1
Cyfanswm	23	4	39	37	31	18

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C20

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Y tu hwnt i fynediad cyffredinol, a yw eich amgueddfa'n codi tâl am unrhyw arddangosfeydd neu wasanaethau?' ac yna gofynnwyd iddynt ddewis pob opsiwn perthnasol o'r rhai oedd wedi'u rhestru yn y tabl.

- 3.30 Adroddodd saithdeg y cant o amgueddfeydd (n54) yn yr arolwg am godi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau penodol y tu hwnt i fynediad cyffredinol. Casglwyd enghreifftiau eraill o ffynonellau incwm fel testun rhydd ac roedd yn cynnwys llogi ystafell / lleoliad, codi tâl am deithiau a gweithdai, trwyddedu delweddau, ffilmio a ffotograffiaeth, ymchwil i wrthrychau ac addysgu ffurfiol.
- 3.31 Mae ystod eang o wasanaethau lle gall amgueddfeydd ennill incwm. Mae amgueddfeydd o bob math o lywodraethu a'r rheini sy'n codi tâl ac nad ydynt yn codi tâl am fynediad, wedi datblygu ystod o ffrydiau incwm ychwanegol y tu hwnt i ymweliad amgueddfa craidd.

Tabl 3.20: Dadansoddiad o incwm a gwariant ar gyfer 2021/22 yn ôl math o lywodraethu

	Annibynnol	Awdurdod Lleol	Cenedlaethol	Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Prifysgol	Cyfanswm
Incwm (heb gynnwys ariannu cyfalaf)	£2,591,151	£3,423,150	£73,418,333	£2,215,912	£101,473	£81,750,019
Gwariant (gan gynnwys costau staff ond nid ariannu cyfalaf)	£3,519,697	£5,759,912	£78,640,333	£3,631,010	£674,858	£92,225,810
Costau staff	£1,531,820	£3,477,015	£60,235,000	£2,706,546	£368,980	£68,319,361
Incwm mynediad	£310,997	£272,788	£0	£692,269	£0	£1,276,054
Incwm arall a enillir	£1,484,414	£340,209	£7,380,333	£670,438	£39,959	£9,915,353
Cyllid cyhoeddus / grant	£1,002,040	£4,504,957	£63,212,333	£0	£273,989	£68,993,319
Incwm rhoddion	£175,362	£20,191	£2,825,667	£105,386	£8,412	£3,135,018
Incwm arall sydd wedi'i gyfrannu	£89,309	£115,277	£0	£581,408	£0	£785,994
Grant referniw / incwm prosiect	£390,870	£1,386,770	£0	£0	£0	£1,777,640
Grant cyfalaf / incwm prosiect	£907,119	£5,827,401	£15,948,333	£68,721	£40,190	£22,791,764

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C23

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch gyfansymiau blynyddol ar gyfer y wybodaeth a ganlyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 i 22. Mae'r adroddiad uchod yn cynnwys ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno.

Ffynonellau Ariannu

3.32 Dengys data o'r arolwg (Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022, C23a) bod amgueddfeydd yng Nghymru yn cyrchu arian o amrywiaeth eang o ffynonellau. Rhoddwyd atebion testun rhydd i'r cwestiwn 'rhowch fanylion unrhyw ffynonellau ariannu / grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 i 2022'. Mae'r crynodeb a ganlyn o'r mathau o ariannu a sicrhawyd yn cynnig arwydd o'r ystod o ffynonellau a gyrchwyd. O fewn y testun roedd nifer yr amgueddfeydd unigryw (uwchlaw un) yn adnabod ffynhonnell ariannu wedi'i nodi gan '(nX)'. Efallai bod rhai amgueddfeydd

wedi cyrchu ffynhonnell mwy nac unwaith ac efallai nad yw rhai amgueddfeydd wedi adnabod eu holl ffynonellau ariannu, felly mae'r niferoedd hyn yn cyflwyno gwaelodlin ac yn gwasanaethu fel arwydd cyffredinol o'r prif ddarparwyr ac amllder eu defnydd.

- 3.33 Mae amgueddfeydd yn ceisio cyllid gan gyllidwyr sector cyhoeddus. Nodwyd arian llywodraeth yn aml, yn arbennig Llywodraeth Cymru (n23), Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru (n18) a Chyngor Celfyddydau Cymru (n3). Mae'n debyg bod grantiau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru yn bennaf o ariannu anuniongyrchol Llywodraeth Cymru. Mae ariannu llywodraeth leol (n10) hefyd sy'n benodol i faes awdurdod gweinyddol, er enghraifft dyfarniadau cynghorwyr, a chyllid cyngor sir a thref.
- 3.34 Ymhlith y rhaglenni targedig a nodwyd hefyd oedd cronfeydd argyfwng Ardreth Annomestig, Grant Gweddnewid Cyfalaf Llywodraeth Cymru, Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafirws CThEF (n3), Grantiau Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Cynllun Cyflogaeth Kickstart, Grant Cyfraddau Busnes a Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.
- 3.35 Ymhlith y cyrff dosbarthu grantiau o bwys a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymatebion oedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (n6), Cronfa'r Celfyddydau (n3) AIM (n3), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog, Army Museums Ogilby Trust (n2), Croeso Cymru (cyllid UE), Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, a ffynonellau penodol yn lleol megis Ymddiriedolaeth Oakdale, Elan Links, Pen y Cymoedd, Deddf yr Eglwys yng Nghymru, Gŵyl Llanandras.
- 3.36 Elusennau arbenigol targedig megis Y Gymdeithas Frenhinol, Cymdeithas y Pridd, Ashley Family Foundation, Cynllun Interniaethau Dyfodol Myfyrwyr i Raddedigion Prifysgol Caerdydd, Elephant Trust, Cronfa'r Celfyddydau (n3), Henry Moore Foundation, Esmée Fairbairn Foundation, Thomas Howell Foundation.
- 3.37 Mae cronfeydd wrth gefn a chynhyrchu incwm eu hunain yn cynnwys gwaddol, etifeddiaeth, grwpiau cyfeillion (n2), a rhoddion (n2).
- 3.38 Sefydliadau gwesteia yn cynnig arian ychwanegol gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Y Bathdy Brenhinol, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, CADW.
- 3.39 Gofynnwyd i ymatebwyr 'Er mwyn targedu cefnogaeth ble'r ydych chi'n bwriadu edrych am gyllid yn ystod y 3 blynedd nesaf?' (Arolwg Spotolau 2022, C24). Casglodd un ymatebydd ei ddyheadau ariannu trwy ddatgan y byddent yn ceisio cyllid 'unrhyw le y gallaf ei gael' ac fe wnaeth llawer o rai eraill grybwyll cyllidwyr penodol gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (n22), Llywodraeth Cymru (n21) a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru (n19), y rhai mwyaf

cyffredin. Er hynny roedd nifer o ffynonellau eraill wedi'u hadnabod a oedd yn cydfynd ag amrywiaeth o gyllid llwyddiannus.

- 3.40 Dywedodd un amgueddfa 'Nad oedd ganddynt gynlluniau ar hyn o bryd am ffynonellau ariannu amgen.' ac roedd eraill yn llai clir gydag ymatebion megis 'Rhaid edrych ar hyn' neu 'ddim yn gwybod'. Er bod llawer o amgueddfeydd sy'n adnabod ac yn gwneud cais am grantiau mae rhai amgueddfeydd yn parhau i adrodd bod hyn y tu hwnt i'w capasiti ar hyn o bryd.

Gweithlu amgueddfa

Tabl 3.21: Gweithlu amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu

Math	Gwirfoddolwyr (O ddydd i ddydd)	Staff cyflogedig	Cyfanswm staff	Canran gwirfoddolwyr
Annibynnol	533	155.6	688.6	77.4%
Awdurdod Lleol	142	293	435	32.6%
Cenedlaethol	536	774	1310	40.9%
Ymddiriedolaeth				
Genedlaethol	502	172.8	674.8	74.4%
Prifysgol	126	19	145	86.9%
Cyfanswm	1839	1414.4	3253.4	56.5%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022, C28 a 29

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?'. Nid yw gwirfoddolwyr sy'n ymddiriedolwyr wedi'u cynnwys yn y ffigur gwirfoddolwyr yma, sy'n ystyried staff sy'n gweithredu'r amgueddfa o ddydd i ddydd.

Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y staff a gyflogir gan yr amgueddfa gan gynnwys staff tymhorol / dros dro'. Mae'r niferoedd staff yn ôl nifer y bobl, nid Cyfwerth ag Amser Llawn.

- 3.41 Dengys y data yn nhabl 3.21 bod y sefydliad cenedlaethol i gyfrif am dros hanner (55%) o staff amgueddfa cyflogedig yng Nghymru. Mae cyfuno hyn gyda ffigurau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dangos bod amgueddfeydd annibynnol, Awdurdod Lleol, a phrifysgol i gyfrif am ddim ond 33% o'r staff amgueddfa cyflogedig yng Nghymru. Gallai lefelau staffio fod yn effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth, er enghraifft nododd ymateb testun rhydd 'Nad ydym wedi derbyn unrhyw gyllid ar gyfer aelod staff "Allgymorth" pwrpasol, felly mae wedi bod yn anodd ymgysylltu â'r sector hwn.'

Tabl 3.22: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ôl math o lywodraethu

	Cyflogedig	Cyflogedig Cyfwerth ag Amser Llawn
Annibynnol	155.6	72.2
Awdurdod Lleol	293	154.56
Cenedlaethol	774	537.97
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	172.8	116.53
Prifysgol	19	12
Cyfanswm	1414.4	893.26

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022, C29 a 29a

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfrifiad y staff a gyflogir gan yr amgueddfa gan gynnwys staff tymhorol / dros dro' a 'Faint o staff cyflogedig amser llawn y mae'r amgueddfa yn eu cyflogi'.

3.42 Mae'r data o'r gymhareb cyflogedig cyfwerth ag amser llawn yn dangos graddau'r gweithio rhan amser ar draws y sector amgueddfa. Mae cyfran y staff amgueddfa cyflogedig yng Nghymru yn ôl sefydliadau cenedlaethol yn ôl cyfwerth ag amser llawn yn codi i 60% ar y sail hon. Mewn cyferbyniad wrth ystyried lefelau cyflogaeth cyfwerth ag amser llawn, dengys y data bod amgueddfeydd annibynnol, Awdurdod Lleol, a phrifysgol i gyfrif am ddim ond 27% o'r staff amgueddfa cyflogedig yng Nghymru.

Tabl 3.23: Nifer y staff proffesiynol cyfwerth ag amser llawn yn ôl rôl a math o lywodraethu amgueddfa

Math	Blaen Tŷ	Curadurol	Cadwraeth	Mynediad /		Arall
				Addysg Rheoli / Cyngor		
Annibynnol	157.7	45.5	27.3	40.7	70.5	40.3
Awdurdod Lleol	69.0	29.9	6.5	11.4	17.8	36.5
Cenedlaethol	172.0	19.0	68.2	53.8	115.6	127.3
Ymddiriedolaeth						
Genedlaethol	22.6	5.0	27.2	3.8	6.6	31.4
Prifysgol	6.5	5.0	0.0	7.4	2.0	3.0
Cyfanswm	427.7	104.4	129.1	117.1	212.4	238.4

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C30

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Nodwch nifer y staff proffesiynol neu wirfoddolwyr Cyfwerth ag Amser Llawn yn y categorïau a ganlyn'.

Tabl 3.24: Nifer y curaduron a gwarchodwyr cymwys yn ôl math o lywodraethu

Math	Nifer Cymwys
Annibynnol	37.1
Awdurdod Lleol	48.3
Cenedlaethol	Data ddim ar gael
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	7
Prifysgol	5.5
Cyfanswm	97.9

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C30

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Gan gydnabod y gallai pobl lenwi sawl rôl, sawl un o'r rolau uchod sydd wedi'u llenwi gan guraduron neu warchodwyr cymwys?'

Nid yw AC-MW yn casglu'r data hyn ac nid oeddynt yn gallu darparu niferoedd.

3.43 Mae'r tabl hwn yn casglu'r data a adroddwyd o'r arolwg. Mae dadleuon proffesiynol am natur y curadur neu warchodwr cymwys. Er y gallai rhai ddeall bod y termau hyn yn adlewyrchu teitlau proffesiynol ac addysg ffurfiol, efallai y gallai eraill ddeall hyn i adlewyrchu cymhwysedd yn y rôl. O ystyried hyn, mae'n debygol y bydd rywfaint o amrywiad o ran hunan-adrodd ar y cwestiwn hwn.

Tabl 3.25: Staff cyfwerth ag amser llawn cyflogedig ar sail tymor penodol ar gyfer prosiectau penodol yn ôl math o lywodraethu

Math	Cyferth ag Amser Llaw n Tymor Penodol (2022 yn gyffredinol)	Cyferth ag Amser Llaw Tymor Penodol (2022 cymharyd d)	Cywert h ag Amser Llaw Tymor Penodo l (2019)
Annibynnol	7	6	7.5
Awdurdod Lleol	16.4	16.4	8.9
Cenedlaethol	10.9	10.9	12.0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	20.7	20.7	6.2
Prifysgol	0	0	0
Cyfanswm	55.0	54.0	34.6

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2020 ac Arolwg Sbotolau 2022 C31. Sylfaen cymharydd (n64)

Nodiadau tabl: At ddibenion cymharu, mae ffigurau yr holl ymatebion 2022 ac yna dim ond yr ymatebwyr hynny a atebodd yn 2019 a 2022 sydd wedi'u defnyddio.

Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl un o'ch gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llaw sydd wedi'u cyflogi ar sail tymor penodol sydd ynghlwm â phrosiect / grant / gweithgaredd penodol (h.y. nid yn dîm craidd)?'

3.44 Dengys y tabl hwn bod 55 Cyfwerth ag Amser Llawn o gyfanswm o 893 Cyfwerth ag Amser Llawn yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru yn staff tymor penodol. Mae hyn yn cynrychioli 6.2 y cant o'r gweithlu. Yn eu hadroddiad 2016 [Character Matters: Attitudes, behaviours and skills in the UK Museum Workforce](#) adroddodd y Cyngor Celfyddydau bod 8.3 y cant o weithlu amgueddfeydd y DU wedi'u cyflogi ar gytundebau tymor byr (BOP Consulting, gyda The Museum Consultancy 2016). Mae'r ffigur o 6.2 y cant i Gymru yn debyg o fod yn ffigur isafswm ar gyfer staff tymor penodol gan fod y cwestiwn yn gofyn am staff tymor penodol ar brosiectau penodol, efallai bod staff tymor penodol ychwanegol yn gweithio ar brosiectau craidd.

Tabl 3.26: Cyfraniad gwirfoddolwyr i amgueddfeydd 2021/22 yn ôl math o lywodraethu amgueddfa

	Oriau			Oriau		Cyfanswm
	Gwirfoddolwyr (Amgueddfa)	Gwirfoddolwyr (Amg)	Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr)	Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr)	Cyfanswm Gwirfoddolwyr	Oriau Gwirfoddolwyr
Annibynnol	533	68,622	212	29,699	745	98,321
Awdurdod Lleol	142	6,865	10	75	152	6,940
Cenedlaethol	536	21,733	98	5,880	634	27,613
Ymddiriedolaeth						
Genedlaethol	502	41,931	0	0	502	41,931
Prifysgol	126	5,292	6	40	132	5,332
Cyfanswm	1,839	144,443	326	35,694	2,165	180,137

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C28a

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?' a 'Tua sawl awr wnaeth gwirfoddolwyr gyfrannu yn 2021/22' ar gyfer gwirfoddolwyr amgueddfa ac ymddiriedolwyr amgueddfa.

Tabl 3.27: Oriau blynyddol cyfartalog 2021/22 a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr yn ôl math o lywodraethu amgueddfa

	Cyfartalog		Oriau
	(Amgueddfa)	(Ymddiriedolwyr)	Cyfartalog (Cyffredinol)
Annibynnol	129	140	132
Awdurdod Lleol	48	8	46
Cenedlaethol	41	60	44
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	84	0	84
Prifysgol	42	7	40
Cyfanswm	79	109	83

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C28a

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?' a 'Tua sawl awr wnaeth gwirfoddolwyr gyfrannu yn 2021/22' ar gyfer gwirfoddolwyr amgueddfa ac ymddiriedolwyr amgueddfa.

Tabl 3.28: Cymharu â data Sbotolau 2020 ar gyfer nifer y gwirfoddolwyr a staff cyfwerth ag amser llawn

Math	N	Nifer y Gwirfoddolwyr			Nifer y staff cyflogedig cyfwerth ag amser llawn		
		2022	2019	Canran y newid	2022	2019	Canran y newid
Annibynnol	26	628	782	-20%	65	54	19%
Awdurdod							
Lleol	22	139	243	-43%	112	117	-4%
Cenedlaethol	7	634	1134	-44%	538	543	-1%
Ymddiriedolaeth							
h							
Genedlaethol	7	502	730	-31%	117	114	2%
Prifysgol	2	119	100	19%	12	9	32%
Cyfanswm	64	2022	2989	-32%	844	837	1%

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2020 ac Arolwg Sbotolau 2022. Sylfaen (n64)

Nodiadau tabl: At ddibenion cymharol dim ond yr ymatebwyr hynny a atebodd yn 2019 a 2022 sydd wedi'u defnyddio. Ni wnaeth Sbotolau 2020 wahanu gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr amgueddfa, felly'r ffigwr 2022 yw cyfanswm y ddau at ddibenion cymharol.

- 3.45 Mae cwmp wedi bod yn nifer cyffredinol y gwirfoddolwyr yn sector amgueddfeydd Cymru ers arolwg 2020 o'i gymharu â staff cyflogedig. Dangosir hyn yng nghanran y gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r sector ar draws y ddau arolwg, gyda chwmp cyffredinol o 32 pwynt canran. Dim ond amgueddfeydd prifysgol sydd wedi cynyddu eu niferoedd gwirfoddolwyr.
- 3.46 Mae staffio Cyfwerth ag Amser Llawn ar draws y sector amgueddfa yn parhau yn weddol sefydlog yn gyffredinol er bod amgueddfeydd annibynnol a phrifysgol wedi gweld cynnydd o 19 a 32 pwynt canran yn y drefn honno mewn staffio rhwng y ddau arolwg. Er hynny roedd ymatebion testun rhydd yn parhau i nodi canfyddiad o ddiffyg staff digidol i gyflenwi gweithgareddau craidd megis 'nid oes gennym unrhyw un i drefnu digwyddiadau. Nid oes gennym Reolwr Amgueddfa ers mis Ebrill 2021.'
- 3.47 Er cyd-destun yn ymwneud â gwirfoddoli ehangach yn y gymdeithas, canfu NCVO [Time Well Spent Survey 2023](#) rhwng 2018 a 2022 bod cyfranogiad gwirfoddolwyr ymhlith poblogaeth y DU wedi cwmpo o 23 y cant yn 2019 i 2020 i 16 y cant yn 2021 i 2022 (NCVO, 2023).

Tabl 3.29: Newid mewn cyllideb hyfforddiant er Sbotolau 2020 yn ôl math o lywodraethu

Math	Cynyddol	Gostyngol	Aros yr un peth	Nifer
				Dim
Annibynnol	2	5	10	17
Awdurdod Lleol	0	4	8	13
Cenedlaethol	0	0	7	0
Ymddiriedolaeth				
Genedlaethol	0	2	4	1
Prifysgol	0	0	1	3
Cyfanswm	2	11	30	34


Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C33

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Ers arolwg Sbotolau 2020 a yw'ch cyllideb hyfforddi wedi newid?' a gofynnwyd i ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrir yn y tabl.

3.48 Adroddodd pedwar deg pedwar y cant o amgueddfeydd yn yr arolwg nad oedd ganddynt gyllideb hyfforddi. Dim ond dwy amgueddfa (3 y cant) adroddodd gynnydd yn y gyllideb ac adroddodd un ar ddeg am ostyngiad (14 y cant) gyda gweddill yr amgueddfeydd yn adrodd ar gyllideb stond.


3.49 Mae mynediad at hyfforddiant ar gyfer ymron i hanner yr amgueddfeydd yn yr arolwg yn dibynnu ar fynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu am ddim neu a ariennir yn allanol gan nad oes ganddynt gyllideb wedi'i neilltuo.

Ffigur 3.5: Mae datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddoli yn newid dros amser yn ôl math o lywodraethu



Ffynhonnell: Data sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C32

Ffigur 3.6: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr dros amser yn ôl maint amgueddfa




Ffynhonnell: Data sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C32

- 3.50 Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am ddarparu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr. Byddai sgôr o 3 yn nodi proses ymsefydlu llawn i bawb, asesiad o anghenion hyfforddi, a chynllun hyfforddi a hyfforddiant wedi'i ddarparu. Mae sgorau uwch yn nodi bod gan yr amgueddfa gyllideb hyfforddiant wedi'i neilltuo, dull wedi'i gynllunio i adnabod anghenion hyfforddi a bod staff a gwirfoddolwyr yn cyrchu cefnogaeth mewnol a chyrsgiau a serminarau allanol.
- 3.51 Mae arfer o amgylch datblygu staff a gwirfoddolwyr yn stond ar y cyfan ar draws oes yr arolwg Sbotolau ar gyfer amgueddfeydd bach a chanolig gan newid llai na 0.5 o ddatganiad ystod dros y cyfnod ac amgueddfeydd mawr yn dangos amrywiad rhwng 4 a 5. Mae amgueddfeydd Awdurdod Lleol, cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dangos cynnydd mewn sgôr datganiad ystod ers 2019.


Casgliadau

Ffigur 3.7: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl math o lywodraethu



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C34

Ffigur 3.8: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl maint amgueddfa




Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C34

3.52 Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am ddarparu adeilad addas ar gyfer yr amgueddfa a gweithdrefnau cynnal a chadw a rheoli sydd wedi'u sefydlu. Byddai sgôr o 3 wedi nodi bod adeilad yr amgueddfa yn dal gwynt a dŵr ac mae arolygiadau a chynnal a chadw hanfodol yn cael eu cynnal. Mae sgorau uwch yn nodi bod amserlen cynnal a chadw arferol wedi'i sefydlu, cynllun rheoli adeilad wedi'i sefydlu, camau gweithredu wedi'u gweithredu, a chofnodion yn cael eu cadw.

3.53 Mae darparu adeilad addas yn dangos tuedd tuag i fyny o welliant dros amser ar draws pob maint amgueddfa. Amgueddfeydd bach sy'n parhau â'r sgorau addasrwydd isaf ac sydd wedi gweld y gwelliant lleiaf yn ystod hynt yr arolwg ac amgueddfeydd canolig sydd wedi gweld y gwelliant mwyaf.

Ffigur 3.9: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu




Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C35

3.54 Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth fonitro amodau amgylcheddol yn yr amgueddfa fel rhan o'i ddull o ofalu am gasgliadau. Fel arfer, byddai hyn yn cynnwys monitro golau, tymheredd a lefelau lleithder perthynol. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod yr amgueddfa yn ymgymryd â pheth monitro, bod ganddo ddealltwriaeth sylfaenol o faterion a bod cyfarpar monitro wedi'i raddnodi. Mae sgorau uwch yn nodi cyfarpar monitro yn gysylltiedig â chyfrifiadur, a bod yr amodau gofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol wedi'u hadnabod. Mae data yn cael eu dadansoddi a'u gweithredu.

3.55 Yn unol â gofynion polisi a chynllun gofal a chadwraeth (6.1 a 6.2) o safon achredu, mae'r holl amgueddfeydd yn y sampl yn nodi eu bod yn cyrraedd yr isafswm 'Rhywfaint o fonitro ar waith. Cyfarpar wedi'i stori a'i raddnodi yn ddigonol. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion (datganiad ystod 3). Mae'r maes hwn o arfer amgueddfa yn cael ei gydnabod yn raddadwy gan y safon achrediad (h.y. nid yw'r disgwyliad ar amgueddfa fach yr un peth ag amgueddfa fawr neu Amgueddfa Genedlaethol) ac mae hyn wedi'i dynnu o ymatebion arolwg o ran y grwpiau maint. Amgueddfeydd bach sydd bennaf yn y math o lywodraethu annibynnol ac mae'r sgôr is yno yn adlewyrchu hyn. Gallai'r cwmp bychan ar gyfer amgueddfeydd


annibynnol o 3.94 yn 2019 i 3.62 yn 2022 adlewyrchu colli gwirfoddolwyr gwybodus ar ôl pandemig Covid-19.

Ffigur 3.10: Newid yn y datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac arolwg Sbotolau 2022 C35

Ffigur 3.11: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu




Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022 C36

3.56 Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am reoli'r amgylchedd amgueddfa i fodloni anghenion ei gasgliadau. Fel arfer, byddai hyn yn cynnwys rheolaethau ar olau, tymheredd a lefelau lleithder cymharol. Mae sgôr o 3 yn nodi ryw ymdrech ar reoli a dealltwriaeth sylfaenol o faterion. Mae sgorau uwch yn nodi bod cyfarpar

rheoli wedi'u sefydlu, y gellir eu cysylltu â chyfarparu monitro a bod rheolaethau yn cael eu gweithredu am o leiaf 50 y cant o'r amser ac uwch.

- 3.57 Yn unol â gofynion polisi a chynllun gofal a chadwraeth (6.1 a 6.2) y safon achredu, mae'r holl amgueddfeydd yn y sampl yn nodi eu bod o leiaf yn cyrraedd 'Ryw ymdrech ar reolaeth (amgylcheddol), dealltwriaeth sylfaenol o faterion' (3). Mae'r maes hwn o arfer amgueddfa wedi'i gydnabod yn raddadwy gan y safon achredu ac mae hyn yn dod o ymatebion arolwg o ran y grwpiau maint. Amgueddfeydd bach sydd bennaf yn y math o lywodraethu annibynnol ac mae'r sgôr is yno yn adlewyrchu hyn.
- 3.58 Mae amgueddfeydd Awdurdod Lleol yn dangos cynnydd yn y sgorau datganiad ystod rhwng 2019 a 2022. Mae amgueddfeydd cenedlaethol hefyd yn dangos gwelliant i'r sgôr gorau posib yn y maes hwn (er y dylid darllen hyn o fewn cyfyngiadau'r offeryn asesu datganiad ystod).
- 3.59 Mae cwmp bychan yn y sgorau datganiad ystod o ran monitro amgylcheddol a rheolaeth ar gyfer amgueddfeydd annibynnol.

Ffigur 3.12: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 wedi'i ddarparu gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022 C36

Tabl 3.30: Gwrthrychau a gedwir gan amgueddfeydd a chaffaeliadau newydd yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu

Math	Gwrthrychau mewn			Nifer
	casgliad	Pryniannau Newydd	Rhoddion Newydd	
Annibynnol	525,538	412		6,952
Awdurdod Lleol	670,385	8		1,159
Cenedlaethol	4,985,036	791		2,476
Ymddiriedolaeth				
Genedlaethol	51,610	4		4
Prifysgol	51,530	13		105
Cyfanswm	6,284,099	1,228		10,696

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C37 a 38

Nodiadau Tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o wrthrychau/eitemau sydd gennych chi yn eich casgliad?' a 'Faint o gaffaeliadau newydd a ddaeth i'ch casgliadau parhaol yn 2021/22?' a gofynnwyd iddynt ddarparu niferoedd o dan y penawdau yn y tabl.

3.60 Er bod casglu gweithredol ar draws pob math o amgueddfa yn ystod 2021 a 2022 roedd cyfran fawr o'r gwrthrychau a gyfrannwyd i amgueddfeydd annibynnol (n4000 a n1162) wedi'u priodoli i ddwy amgueddfa oherwydd cyfraniadau a phrosiectau catalogio penodol.

Tabl 3.31: Gwrthrychau yn gadael casgliadau parhaol yn 2021/22 yn ôl math o lywodraethu

Math	Rhoddion	Gwerthu	Nifer
			Dinistr
Annibynnol	4	0	10
Awdurdod Lleol	252	695	22
Cenedlaethol	0	0	411
Ymddiriedolaeth			
Genedlaethol	0	2	0
Prifysgol	0	0	0
Cyfanswm	256	697	443

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C39

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o wrthrychau sydd wedi gadael y casgliadau parhaol yn 2021 a 2022 yn ôl y canlynol:' a gofynnwyd iddynt ddarparu niferoedd o dan y penawdau yn y tabl.

3.61 Gellir priodoli ymron yr holl wrthrychau sy'n gadael yr amgueddfeydd i dair amgueddfa (Amgueddfa'r Fenni, Amgueddfa Casnewydd, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd). Mae hyn yn dangos y potensial ar gyfer arweinyddiaeth o fewn Cymru yn ymwneud â rhesymoli casgliadau, ond nad yw rhesymoli casgliadau gweithredol wedi'i wreiddio'n eang mewn arfer rheoli casgliadau mewn amgueddfeydd achrededig ar draws Cymru, er gwaethaf y materion storfa gorlawn a adroddwyd.

Tabl 3.32: Faint o amser hyd nes y bydd storfa yn gorlenwi ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu


	Eisoes yn orlawn	Canran yr ymatebion		
		<5 mlynedd	5 i 10 mlynedd	>10 mlynedd
Annibynnol	26.0	14.3	2.6	1.3
Awdurdod Lleol	20.8	6.5	2.6	2.6
Cenedlaethol	0.0	9.1	0.0	0.0
Ymddiriedolaeth				
Genedlaethol	7.8	0.0	0.0	1.3
Prifysgol	2.6	1.3	0.0	1.3
Cyfanswm	57.1	31.2	5.2	6.5

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C40

Nodiadau tabl: Gofynnwyd i ymatebwyr 'Wrth ystyried cyfraddau casglu a gwaredu ar hyn o bryd, amcangyfrifwch ba mor hir y bydd hi'n cymryd i storfeydd ddod yn orlawn?' a gofynnwyd iddynt ddewis un o'r penawdau yn y tabl.


3.62 Ymatebodd ffigwr o 88 y cant o ymatebwyr eu bod eisoes yn orlawn neu y byddant o fewn llai na 5 mlynedd a oedd yr union yr un peth (88 y cant) a chanlyniadau Sbotolau 2020, er bod y dadansoddiad ychydig yn wahanol (61 y cant eisoes yn orlawn yn 2019 yn erbyn 57 y cant yn 2022). Gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau yn nifer a mathau amgueddfeydd a ymatebodd mae'n annhebygol bod y sefyllfa wedi gwella ac yn fwy tebygol bod amrywiad ystadegol derbyniol a rhywfaint o resymoli casgliad i gyfrif am y gwahaniaeth bach hwn. Mae'r canlyniadau yn cadarnhau bod ymron i 90 y cant o amgueddfeydd yng Nghymru yn debygol o fod â storfeydd gorlawn mewn llai na 5 mlynedd.

Ffigur 3.13: Pa mor hir hyd nes y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu




Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 C40

Ffigur 3.14: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu



Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022

Ffigur 3.15: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa




Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022

3.63 Mae'r datganiad ystod yn casglu perfformiad wrth ddarparu gofod storio casgliad a threfnau cadw tŷ cysylltiedig. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod gan yr amgueddfa storfeydd arfaethedig gyda mynediad diogel at wrthrychau unigol, pecynnu gradd cadwraeth ar gyfer gwrthrychau a storfeydd yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer mynediad cyhoeddus i gasgliadau a storir. Mae sgorau uwch yn nodi bod gweithredu rhaglenni monitro plâu, gofod cwarantîn ar gyfer

gwrthrychau sy'n dod i mewn, gweithle pwrpasol yn y storfa, gwirio cyflwr yn rheolaidd a lle i ehangu.


- 3.64 Mae'r ymatebion hyn ar gyfer storio a chadw tŷ yn dangos amgueddfeydd achrededig yn gweithredu o fewn gofynion y safon ond nid heb heriau. Mae sgorau '3' isel yn ffigurau 3.14 a 3.15 yn awgrymu peth arfer da gan gynnwys storfeydd wedi'u cynllunio, rhaglenni cadw tŷ a mynediad cyhoeddus ond heriau yn ymwneud â gorlenwi.
- 3.65 Fel arfer, mae'r adnoddau mwy sydd ar gael mewn amgueddfeydd mwy wedi'u hadlewyrchu yn yr ystod o sgorau (ac yn unol â gallu i dyfu y safon achrediad). Gallai'r amrywiadau yn y sgorau dros amser fod yn unol ag amherffeithrwydd y dull datganiad ystod yn hytrach nac yn arwydd o newidiadau cyfan.
- 3.66 Nid yw'n ymddangos bod safonau cadw tŷ mewn storfeydd amgueddfa wedi'u heffeithio'n niweidiol gan y pandemig.

Ffigur 3.16: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu



Ffynhonnell: Data sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022


Ffigur 3.17: Newid yn natganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa



Ffynhonnell: Data sbotolau rhwng 2002 a 2019 a ddarparwyd gan LIC ac Arolwg Sbotolau 2022


Llywodraeth Cymru. (2021). *Rhaglen ar gyfer y llywodraeth: diweddariad*. [ar-lein] Ar gael yn: [Rhaglen lywodraethu](#) [Cyrchwyd 4 Meh. 2023].

Llywodraeth Cymru. (2022). *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. [ar-lein] Ar gael yn: [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) [Cyrchwyd 4 Meh. 2023].

Llywodraeth Cymru. (2023). *Canllaw adrodd sero net y sector cyhoeddus*. [ar-lein] Ar gael yn: [Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net](#) [Cyrchwyd 4 Meh. 2023].

www.alva.org.uk. (n.d. (a)). *ALVA News*. ALVA | Association of Leading Visitor Attractions. [ar-lein] Ar gael yn: [Association of Leading Visitor Attractions: news](#) [Cyrchwyd 4 Meh. 2023].

www.alva.org.uk. (n.d.(b)). *2022 Visitor Figures* Visits made in 2022 to visitor attractions in membership with ALVA ALVA | Association of Leading Visitor Attractions. [ar-lein] Available at: [Association of Leading Visitor Attractions: 2022 visitor figures](#) [Cyrchwyd 4 Meh. 2023].

Atodiad A: Holiadur



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sbotolau 2023

Tudalen 1: Croeso

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd a Gweithdai

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd i gynnal Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd. 'Sbotolau' yw arolwg cynhwysfawr o amgueddfeydd â'r nod o gasglu data a darparu asesiad wedi'i ddiweddarau o'r sector amgueddfeydd yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r Arolwg Sbotolau yn helpu i gyfrannu at amcangyfrifon o effaith gymdeithasol ac economaidd o amgueddfeydd yng Nghymru.

Bydd disgwyl i Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd weithio gyda'r sector amgueddfeydd i gefnogi cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr Arolwg Sbotolau. Caiff cyfranogwyr eu gwahodd i'r gweithdy rhithwir dwyieithog cyn i'r arolwg fynd yn fyw ar furf sesiwn holi ac ateb 'sut i'.

Bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd dim ond yn cysylltu â'r amgueddfeydd hynny sydd naill ai'n achrededig neu sy'n gweithio tuag at achrediad drwy Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r ymchwil. Fodd bynnag, bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r arolwg a'r gweithdai, a gwneud y data crai yn ddiennw, cyn iddo gael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru.

Ceir y wybodaeth a gasglir yn ystod y prosiect ei gynnwys mewn adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich bam a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Emma Chaplin Heritage and Museum Services yw: Emma Chaplin

Ebost: emma@emmachaplin.co.uk

Rhif ffôn: 07884 254 351

Pa ddata personol ydym ni'n dal a ble ydym ni'n cael yr wybodaeth hon?

Caiiff data personol eu diffinio o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i berson y gellir ei adnabod y gall ei hunaniaeth gael ei datgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) i'r contractiwr dynodedig at ddiben cynnal yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd a'ch gwahodd i weithdy cyn i'r arolwg fynd yn fyw. Mae Llywodraeth Cymru yn dal eich manylion cyswllt oherwydd eich rhan chi yn y Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU yng Nghymru lle mae cais am achrediad eisoes wedi'i gyflwyno.

Bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd dim ond yn defnyddio eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn at ddibenion cysylltu

â chi i gymryd rhan yn yr Arolwg Sbotolau a'ch gwahodd i weithdy cyn i'r arolwg fynd yn ffw. Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os na fyddwch chi am gymryd rhan ar unrhyw gam neu dderbyn negeseuon atgoffa, atebwch yr e-bost gwahodd a chaiff eich manylion eu dileu.

Nid yw'r ymchwiliad hon yn casglu data personol ychwanegol gennych ar gyfer naill ai'r arolwg neu'r gweithdy. Ni fydd eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP yn cael ei ddal trwy gwblhau'r arolwg felly bydd ymatebion yn ddiennw.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwiliad, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod o, neu'n cysylltu eich hunaniaeth â'r ymatebion rydych yn eu darparu.

Os byddwch chi'n gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol sy'n gofyn am ymateb, bydd yr ymchwiliad yn anfon y cais ymlaen i'r swyddog perthnasol yn unig, gan ei ddileu wedi hynny o'r data ymchwiliad.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwiliad fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth weithredol am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Caiff gwybodaeth personol a ddarperir i Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd bob amser ei chadw ar weinydd diogel. Nifer gyfyngedig yn unig o ymchwiliad sy'n gweithio ar y prosiect ymchwiliad hwn fydd yn gallu cyrchu'r data. Bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwiliad yn unig. Mae gan Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd Ardystiad Hanfodion Seiber.

Wrth gynnal arolygon, mae Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn defnyddio rhaglen feddalwedd arolwg o'r enw Online Surveys. Rydym wedi sicrhau bod Online Surveys yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn cwrdd â'n disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gasglir trwy'r feddalwedd hon.

Mae gan Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw doriad diogelwch data posib. Os bydd toriad yn digwydd, bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd yn adrodd amdano wrth Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reolydd perthnasol lle mae dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chasglu i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ynglŷn â'r data crai dienw'r arolwg. Ni fydd yr adroddiad a data crai dienw'r arolwg yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd yn dal data personol yn ystod cyfnod y contract, a chaiff unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi'u tynnu yn ystod y broses drawsgrifio eu dileu gan Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd o fewn tri mis ar ôl i'r contract ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd Emma Chaplin Heritage a Gwasanaethau Amgueddfeydd yn darparu fersiwn o'r data wedi'u hanonymio i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu eich hunaniaeth.

Hawliau unigol

O dan GDPR y DU, mae gennych chi'n hawliau canlynol mewn perthynas â'r data personol rydych chi'n eu darparu. Mae gennych yr hawl i:

- Gyrchu copi o'ch data personol;
- gofyn i ni gywiro anghywirdeb yn y data hynny;
- Gwrthod prosesu eich data neu gyfyngu'r prosesu (mewn amgylchiadau penodol);
- 'Dileu' eich data (mewn amgylchiadau penodol); a
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliff House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiynau pellach am sut y caiff y data a ddarperir fel rhan o'r arolwg hwn eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os byddwch chi'n dymuno ymarfer eich hawliau o dan GDPR y DU, cysylltwch ag:

Enw: Emma Sullivan

Cyfeiriad e-bost: Emma.Sullivan@gov.wales

Rhif ffôn: 0300 0251492

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

Tudalen 2: Canllaw Dechrau Cyflym

Diogelu Data

Caiff y wybodaeth a ddarperir yn yr arolwg hwn ei defnyddio i helpu gyda gwaith cynllunio strategol amgueddfeydd yng Nghymru, helpu amgueddfeydd meincnodi gydag amgueddfeydd eraill a chynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i bennu blaenoriaethau polisi. Mae **datganiad preifatrwydd llawn** i'w gael ar ddechrau'r arolwg.

Canllaw i ddechrau a chadw

Mae'r e-bost a dderbyniwyd gennych yn eich cysylltu â'r arolwg. Bydd yr arolwg yn dechrau pan fyddwch chi'n **clicio ar y ddolen** a dderbyniach chi mewn e-bost. Dylech ddechrau drwy nodi enw eich amgueddfa. Mae hyn yn creu ymateb eich amgueddfa.

Mae sawl **cwestiwn yn ofynnol** (*Gofynnol) a bydd gofyn i chi gael data cyn ateb a symud ymlaen i'r rhan nesaf. Anfonwyd copi pdf o'r arolwg atoch gyda dolen i'r arolwg gyda'r ddogfen ganllaw hon. Allwch chi ddim neidio ymlaen felly efallai y byddwch chi am argraffu'r pdf a darllen y cwestiynau / casglu data cyn dechrau.

Dylech chi **gadw wrth fynd**. Rydym ni'n argymhell eich bod chi gwneud hyn os byddwch chi'n cymryd egwyl neu wedi treulio mwy na hanner awr yn nodi atebion. I wneud hyn, defnyddiwch y botwm 'Gorffen Wedyn' ar waelod tudalen yr arolwg. Bydd hyn yn agor sgrin gyda dolen we ac opsiwn i e-bostio'r ddolen atoch chi'ch hun. Gallwch gopïo a chadw tudalen y ddolen ond gallai fod yn haws nodi eich cyfeiriad e-bost a phwyso 'anfon' i e-bostio'r ddolen atoch chi'ch hun. Gwiriwch eto eich bod chi wedi nodi eich manylion yn gywir oherwydd fel arall, caiff eich gwaith ei golli.

I **barhau â'r arolwg**, pwyswch 'Ddychwelyd i'r arolwg' yn syth, neu gallwch chi adael yr arolwg a dychwelyd yn ddiweddarach drwy glicio ar y ddolen yn eich e-bost. Pan fyddwch chi wedi'i gadw, bydd yr arolwg yn awtogadw bob amser y byddwch chi'n pwyso 'Nesaf' a gallwch chi ddychwelyd ato drwy ddilyn y ddolen rydych chi wedi'i e-bostio atoch chi'ch hun. Os hoffech chi gadw'r gwaith hanner ffordd drwy dudalen, bydd yn rhaid i chi glirio ar 'Gorffen Wedyn' i'w gadw, fel y disgrifir uchod.

Pan fyddwch chi wedi **gorffen** yr arolwg, cliciwch ar y botwm 'gorffen' yn y gornel dde ar waelod eich sgrin. Bydd hyn yn agor sgrin o'r enw 'tudalen olaf' a fydd yn rhoi cyfle i chi **gadw copi** personol o'r hyn rydych chi'n ei gyflwyno. Rydym ni'n argymhell i chi wneud hyn a bydd gennych chi 15 munud i'w wneud. Cliciwch ar 'Fy ymatebion' o dan y pennawd 'Lawrlwytho fy ymatebion' a bydd hyn yn creu pdf y gallwch chi ei argraffu neu gadw er eich cofnodion chi. Sylwer nad yr un botwm â'r dderbynneb gwblhau yw hwn, oherwydd bod hwnnw dim ond yn cadarnhau eich bod chi wedi cwblhau'r arolwg

Mae'r arolwg hwn **dim ond** yn ceisio casglu ymatebion gan **amgueddfeydd sy'n rhan o'r cynllun achredu**, y rhai hynny gyda statws llawn, dros dro neu sy'n gweithio tuag at statws achredu.

Cwblhau'r arolwg

Mae **canllawiau ar gyfer cwblhau'r arolwg** wedi'i gynnwys yn yr arolwg. Mae hyperddolenni wedi'u cynnwys yn yr arolwg os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi. Os na allwch chi gyrchu'r dolenni hyn, e-bostiwch ni yn y cyfeiriad isod.

Gellir gweld rhai o'r cwestiynau fel rhestr ond gallwch chi ddewis **'gweld y cwestiynau ar ffurf tabl** i weld fersiwn fwy cryno o'r cwestiynau.

Rydym ni am i hyn fod mor hwylus â phosib. Gofynnwn i chi gwblhau cynifer o gwestiynau ag y gallwch. Rydym ni'n gwybod y gall darparu union ffigur fod yn anodd felly os nad oes gennych chi ddata cywir neu derfynol, **gofynnir i chi ddarparu eich amcangyfrifon gorau**.

Ac eithrio nifer yr ymwelwyr, rydym ni'n gofyn amdani ar ffurf blynyddoedd calendr, dylai'r data a ddarperir gennych **fod am y flwyddyn ariannol**, 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022 ac unrhyw flynyddoedd ariannol eraill a nodwyd lle bo'n berthnasol. Os bydd eich blwyddyn ariannol chi'n wahanol, er enghraifft Ionawr tan Ragfyr, dylech gynnwys data'r cyfnod cyfrifyddu sy'n cyd-fynd orau ag ystod y flwyddyn (er enghraifft, byddai 2021-22 yn cynnwys Ionawr 2021 tan Ragfyr 2021, neu Ebrill 2021 tan Fawrth 2022, gan ddiybnnu ar eich blwyddyn ariannol). Dylai'r eithriad ar gyfer nifer yr ymwelwyr eich galluogi i ddefnyddio eich data Croeso Cymru.

Mae gan rai cwestiynau flychau testun rhydd sy'n dweud '**Unrhyw sylwadau eraill?**' Does dim rhaid cwblhau'r rhain ac fe'i darperir rhag ofn eich bod chi am wneud sylw ar y berthynas rhwng eich sefyllfa chi a'r ffordd rydym ni'n casglu data. Weithiau, bydd un o'r blychau hyn yn agor os byddwch chi'n dewis 'arall' fel ateb i unrhyw un o'r cwestiynau.

Mae'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr gwblhau sawl **datganiad ystod** mewn perthynas â'u hamgueddfa. Ni fwriedir i'r rhain fod yn sgorau nac yn feirniadaeth. Bydd yr hyn sy'n briodol i'ch amgueddfa chi'n benodol i'ch amgylchiadau chi. Nid oes yn rhaid i'r holl ddatganiadau gyd-fynd â'r sefyllfa yn eich amgueddfa chi. Dewiswch yr ateb sy'n disgrifio eich amgueddfa ORAU.

Cysylltu â ni

Mae cwestiynau'r arolwg yn cynnwys canllawiau ar sut i'w hateb. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ychwanegol am gwblhau'r arolwg, e-bostiwch Phil Parkes yn spotlightwales2023@gmail.com.

Yr holl ddolenni y gallai fod eu hangen arnoch

Weithiau, bydd yr arolwg yn cyfeirio at adnoddau allanol. Rydym ni'n gobeithio y bydd y rhan fwyaf ohonynt eisoes yn gyfarwydd. Rydym ni wedi'u casglu ynghyd yma ar eich cyfer, rhag ofn y bydd hyn yn ddefnyddiol.

C8

<https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2020/04/Understanding-Your-Audiences-2020-1.pdf>

C11

https://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/S2D12_Detailed_framework.pdf

<https://le.ac.uk/rcmg/research-archive/generic-learning-outcomes>

C14 https://www.ucl.ac.uk/culture/sites/culture/files/ucl_museum_wellbeing_measures_toolkit_sept2013.pdf

C26

<https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2019/10/Economic-Impact-Toolkit-2019.pdf>

C43

<https://collectionstrust.org.uk/spectrum/>

<https://www.gov.wales/museum-collection-significance-guidance-museums>

C46

<https://juliesbicycle.com/our-work/creative-green/creative-green-tools/>

C47

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Llifogydd \(naturalresources.wales\)](#)

C48

https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/anti-racist-wales-action-plan_0.pdf

Tudalen 3: Ynglyn â'ch amgueddfa

1. Enw eich Amgueddfa: * *Gofynnol*

1.a. Cod post yr amgueddfa * *Gofynnol*

Nodwch gôd post dilys yn y DU.

1.b. Eich enw * *Gofynnol*

1.c. Eich cyfeiriad e-bost * *Gofynnol*

Nodwch gyfeiriad e-bost dilys os gwelwch yn dda.

1.d. Rhif ffôn yr amgueddfa * *Gofynnol*

Nodwch rif ffôn dilys os gwelwch yn dda.

2. Ydych chi'n amgueddfa achrededig (sy'n ddeiliad Statws Llawn, Dros Dro neu Weithio tuag at Achrediad) * *Gofynnol*

- Ydym
 Nac ydym

3. Math o amgueddfa * *Gofynnol*

3.a. Os dewisoch chi Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

4. Sut fydddech chi'n disgrifio patrwm arferol eich amgueddfa o weithredu? * *Gofynnol*

5. A oes rhywbeth wedi amharu ar eich patrwm arferol o weithredu eleni (megis ail-ddatblygu)? * *Gofynnol*

- ⌵ Oes
- ⌵ Nac oes

Tudalen 4: Cynulleidfaedd yr Amgueddfa

6. Nodwch nifer yr ymwelwyr yn y blynnyddoedd calendr canlynol. Rydym yn gofyn am wybodaeth ar sail blwyddyn galendr i gyd-fynd â dull Croeso Cymru o gasglu data.

	Nifer yr ymwelwyr wyneb-yn-wyneb * <i>Gofynnol</i>	Amcan neu union? * <i>Gofynnol</i>		Nifer yr ymwelwyr ar-lein	Amcan neu union?	
		Amcan	Union		Amcan	Union
2018	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2019	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2020	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2021	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2022	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Datblygu Cynulleidfa a Marchnata Strategol

7. Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Dim hyrwyddo, nac ymchwil defnyddwyr na datblygu cynulleidfa.
- Cynhyrchu deunydd hyrwyddo sylfaenol megis posteri, tafenni, a/neu ddatganiadau rheolaidd i'r wasg.
- Fel uchod a hefyd: Ymgynghori ffurfiol o bryd i'w gilydd â defnyddwyr a chasglu adborth anffurfiol gan ddefnyddwyr drwy lyfrau ymwelwyr, cardiau sylwadau, ymgynghori â Chyfeillion, grwpiau ffocws ac ati. Dadansoddi'r adborth, ymateb i'r adborth, defnyddio'r canlyniadau yn y gwaith cynllunio. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog o bosibl.
- Fel uchod a hefyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cyd-destun demograffig / cymdeithasol / economaidd o ardal yr amgueddfa. Rhywfaint o ymchwil sylfaenol i'r farchnad / casglu ymateb defnyddwyr yn rheolaidd, fel mater o drefn. Cynllunio pob gweithgaredd hyrwyddo ar sail y canfyddiadau hyn (e.e. hysbysebu print, yn y wasg a/neu talu am hysbysebu) a chyllideb benodedig i hyn. Targedu cynulleidfaedd penodol / grwpiau defnyddwyr (nid rhai newydd o reidrydd). Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Ymchwil i'r farchnad a monitro ymateb y defnyddwyr a hynny yn rheolaidd (o leiaf bob 2 flynedd) drwy ddefnyddio dulliau cyson. Marchnata / datblygu cynulleidfa yn cael eu gwerthuso bob hyn a hyn. Cyflogaeth a/neu fewnbwn cyson gan weithwyr profesiynol mewn marchnata. Y rhan fwyaf o'r deunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Targedu defnyddwyr annhraddodiadol / lleiafrifoedd ac yn defnyddio dulliau priodol o gyfathrebu. Pob gweithgaredd datblygu cynulleidfa a marchnata yn cael eu monitro a'u gwerthuso yn rheolaidd. Ymgynghori â'r cynulleidfaedd a'u barn/ymatebion yn cael eu hintegreiddio i'r broses gynllunio. Pob deunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.

8. A ydych wedi gwneud unrhyw ymchwil ffurfiol i nodi demograffeg y rhai a ymwelodd â'ch amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
Dewisol

- Ydym
- Nac ydym

8.a. Pa rai o'r canlynol a wnaed gennych (gweler 'Understanding Your Audiences' gan AiM i gael rhagor o wybodaeth). (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Ymchwil sylfaenol: cynnal arolwg o ymwelwyr, er enghraifft
- Ymchwil eilaidd: defnyddio ymchwil a wnaed yn barod
- Ymchwil feintiol: mesur (e.e. mae 33% o'n hymwelwyr yn grwpiau teuluol)

- Ymchwil ansoddol: ystyried cwestiynau a themau ehangach
- Segmentu: deall eich ymwelwyr fel grwpiau

Tudalen 5: Darpariaeth ddysgu ac ymgysylltu addysgol yr amgueddfa

Darparu Dysgu Ffurfiol

DS: Mae cwestiynau 9-11 yn ymwneud ag ymweliadau dysgu ffurfiol (h.y. ysgolion, colegau a phrifysgolion)

9. Faint o sesiynau addysg ffurfiol a gafodd eu cynnal gan eich amgueddfa yn 2021/22 (h.y. sesiynau gyda darparwyr addysg ffurfiol fel ysgolion/colegau/sefydliadau addysg uwch)?

	Wyneb-yn-wyneb * <i>Gofynnol</i>	Amcan neu union? * <i>Gofynnol</i>		Digidol	Amcan neu union?	
		Amcan	Union		Amcan	Union
Cyfanswm nifer y sesiynau	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfanswm nifer y cyfranogwyr	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

9.a. Unrhyw sylwadau ychwanegol

10. Beth oedd cyfanswm yr ysgolion a'r sefydliadau dysgu ffurfiol yr ymgysylltwyd â hwy yn 2021/22? * *Gofynnol*

11. Darparu dysgu ffurfiol: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau. Efallai y bydd yn rhaid i chi gyfeirio at y fframwaith '[Ysbrydoli Dysgu i Bawb](#)' a'r model '[Canlyniadau Dysgu Cyffredinol](#)'. * *Gofynnol*

- Dim cysylltiad wedi'i wneud â'r sector addysg ffurfiol. Ni ellir diwallu ceisiadau gan y sector addysg ffurfiol.
- Nid ydym yn mynd ati'n frwd i dargedu'r sector addysg ffurfiol, ond mae grwpiau yn gwneud ymweliadau annibynnol a/neu mae sesiynau arbennig yn bosibl. Mae o leiaf ddau o'r canlynol ar gael: 1. Darlithiau, 2. Pecynnau astudio neu daflenni gwaith, 3. Cyfngau electronig (gan gynnwys gwefan), 4. Chwarae rôl, 5. Gweithdai creadigol, 6. Teithiau tywys, 7. Gweithgareddau rhyngweithiol.
- Fel uchod a hefyd: Mae grwpiau'n gwneud ymweliadau annibynnol, rhywfaint o ddeunydd ategol ar gael, gwneir rhywfaint o waith cyswllt â chwricwlwm neu raglenni dysgu perthnasol ysgolion/colegau. Dealltwriaeth o'r fframwaith 'Annog Addysg i Bawb'. Rhywfaint o wybodaeth am y sector addysg lleol, defnyddwyr posibl a photensial addysgol yr amgueddfa. Rhywfaint o ymgynghori ag arweinyddion/ trefnyddion grŵp am y ddarpariaeth. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog o bosibl.
- Fel uchod a hefyd: Yn defnyddio deilliannau dysgu cyffredinol neu fesuriadau eraill i fesur yr effaith ar ddysgu. Rhaglen o sesiynau uniongyrchol ar gyfer grwpiau. Mynediad a/neu gyfeusterau ar gyfer ymchwilwyr. Rhywfaint o ddeunydd ategol sy'n cydweddu â'r chwricwlwm neu raglenni dysgu perthnasol. Gwybodaeth ddigonol o'r sector addysg lleol, defnyddwyr posibl a photensial addysgol yr amgueddfa. Mewnbyn ad hoc gan addysgwyr allanol. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Yn pennu amcanion dysgu cyffredinol neu fesurau eraill ar gyfer sesiynau a gyflawnir gan bobl sydd â sgiliau penodol a/neu arbenigedd addysgol. Mwy na 50% o ddeunydd/ sesiynau ategol yn cydweddu â'r chwricwlwm neu raglenni dysgu. Cyswllt rheolaidd ag addysgwyr allanol sydd â mewnbwn anffurfiol i'r gwasanaeth. Gwerthuso crynodol o'r sesiynau. Cyflogi addysgwyr llawn-amser i ddatblygu a rheoli'r gwasanaeth. Y mwyafrif o'r deunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Rhaglen o sesiynau uniongyrchol sy'n diwallu anghenion ystod eang o oedran, gallu a dulliau dysgu. Amcanion dysgu ar gyfer y sesiynau yn cael eu trafod a'u hadolygu yn rheolaidd gyda'r defnyddwyr. Pob deunydd/sesiynau.

Darparu Dysgu Anffurfiol

DS: Mae cwestiynau 12-13 yn gymwys i ymweliadau dysgu anffurfiol (h.y. gyda darparwyr anaddysgol e.e. y Brownis / Sefydliad Celfyddydau lleol, grwpiau Prifysgol y Drydedd Oes neu hunan-arwain, megis gwaith ymchwil. Gall gynnwys unrhyw ddigwyddiadau, gweithgareddau gwyliau ysgol, gweithdai, seminarau, sgysia, darlithoedd a sesiynau ymchwil unigol ac ati).

12. Faint o weithgareddau a digwyddiadau eraill a gafodd eu cynnal gan eich amgueddfa yn 2021/22?

	Wyneb-yn-wyneb * <i>Gofynnol</i>	Amcan neu union? * <i>Gofynnol</i>		Digidol	Amcan neu union?	
		Amcan	Union		Amcan	Union
Cyfanswm nifer y gweithgareddau a digwyddiadau	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfanswm nifer y cyfranogwyr	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

12.a. Unrhyw sylwadau ychwanegol

13. Darparu Dysgu Anffurfiol: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Dim darpariaeth fwriadol, ond arddangosiadau ar gael.
- Cyswllt personol â'r staff/gwirfoddolwyr dim ond drwy drefniant. O leiaf un prif ddull o ddehongli ac un is-ddull ar gael o'r: Labeli; Paneli arddangos; Systemau clyweledol; Canllawiau neu gatalogau printiedig; Gwybodaeth lafar gan y staff.
- Fel uchod a hefyd: Hysbysrwydd a gwybodaeth am y casgliadau ar gael drwy fod o leiaf ddau o'r digwyddiadau/gweithgareddau canlynol ar gael; Darlithoedd; Pecynnau astudio neu dafenni gwaith; Cyfryngau electronig (gan gynnwys gwefan); Chwarae rôl; Gweithdai creadigol; Teithiau tywys; Gweithgareddau rhyngweithiol. Dealltwriaeth o'r cynllun 'Annog Addysg i Bawb'. Posiblwydd o drefnu mynediad i gasgliad nad yw'n cael ei arddangos / gwybodaeth i ymchwilwyr / dysgwyr annibyynnol. Ymgynghori â defnyddwyr ynghylch y ddarpariaeth. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog o bosibl.
- Fel uchod a hefyd: Staff/gwirfoddolwyr ar gael ar gyfer ymwelwyr i ymgysylltu â hwy am o leiaf 40% o'r amser agor neu ar gyfer 30% o'r ardaloedd arddangos. Defnyddir deilliannau dysgu cyffredinol i fesur effaith y dysgu. Rhaglen gweddol gynhwysfawr o ddigwyddiadau, a rhai ohonynt â nodau dysgu penodol a chynulleidfaoedd targed penodol. Rhywfaint o elfennau dysgu rhyngweithiol uwch-dechnoleg/is-dechnoleg i'r arddangosiadau. Rhywfaint o ddeunydd dysgu ar gyfer teulu oedd/plant a/neu oedolion (e.e. llwybrau, llawlyfrau). Rhai arddangosfeydd dros-dro a/neu newidiadau i'r arddangosiadau parhaol. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Rhaglen o ddigwyddiadau rheolaidd a/neu arddangosfeydd, sy'n cynnwys gweithgareddau gwaith maes, yn targedu cynulleidfaoedd traddodiadol ac anhraddodiadol. Ystod o ddeunydd dysgu ac elfennau rhyngweithio yn creu cyfleoedd dysgu i bob oedran a gallu. Pob un o'r uchod yn cael eu cynhyrchu gyda chymorth arbenigwr addysg a'u gwerthuso gyda'r defnyddwyr. Y rhan fwyaf o'r cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.
- Fel uchod a hefyd: Rhaglen helaeth o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau dan arweiniad pobl sydd â sgiliau penodol a/neu arbenigedd addysgol. Arddangosfeydd dros-dro (yn fewnol, teithiol neu yn y gymuned) a rhaglen.

14. A ydych wedi defnyddio Pecyn Cymorth Amgueddfa'r UCL ar Fesur Llesiant ([Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL](#)) i fesur effaith gwaith eich amgueddfa ar lesiant? * *Gofynnol*

- Ydym
- Nac ydym

14.a. A oedd eich canlyniadau yn dangos gwelliant mewn llesiant?

- Oedd
- Nac oedd

14.b. Beth oedd eich canlyniadau?

Tudalen 6: Mynediad

15. Ers arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 20xx, a ydych wedi cynnal arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd yn targedu unrhyw rai o'r meysydd cydraddoldeb canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Ailbennu rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Benywod
- Crefydd neu gred
- Anabledd
- Hil neu ethnigrwydd
- Oedran – Cyffredinol
- Oedran – Pobl hŷn (60 oed a throsodd)
- Oedran – Plant rhwng 0 a 5 oed
- Oedran – Pobl ifanc (16 i 25 oed)
- Siaradwyr Cymraeg
- Priodas/ partneriaeth sifil
- Beichiogrwydd/mamolaeth
- Ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf' gynt/ardaloedd o amddifadedd
- Pobl â dementia
- Sipsiwn, Roma a theithwyr
- Arall

15.a. Os mai 'Arall' oedd eich ateb, rhwch fanylion:

16. Ers arolwg Sbotolau yn 20xx a yw'r amgueddfa wedi gwneud archwiliad mynediad gydag adroddiad ffurfiol ac argymhellion? *
Gofynnol

- Ydy
- Nac ydy
- Wn i ddim

Mynediad – Arddangos

17. Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Labeli sylfaenol ynghyd â gwybodaeth gefnogi (e.e. testun, ffotograffau, mapiau, darluniau). Labeli gwrthrychau ar gael.
- Crëwyd y rhan fwyaf o'r arddangosfeydd fwy na 10 mlynedd yn ôl (llai na 10% o'r arddangosfeydd wedi'u hadnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf). Dim cynlluniau realistig â chostau ar gyfer adolygu neu adnewyddu.
- Crëwyd y rhan fwyaf o'r arddangosfeydd fwy na 10 mlynedd yn ôl (llai na 10% o'r arddangosfeydd wedi'u hadnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf). Rhaglen fanwl â chostau ar gyfer ailarddangos. Cynnal arddangosfeydd dros dro i arddangos eitemau ar gyfer storfeydd neu arddangosfeydd teithiol. Ailarddangosfa wedi'i chreu'n ddiweddar heb werthusiad na mewnbwn defnyddwyr. Efallai y bydd peth ddarpariaeth ddwyieithog.
- Fel uchod ynghyd ag: O leiaf 10% o'r arddangosfeydd wedi'u hadnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf. Arddangosfeydd yn cael eu newid

yn rheolaidd i dreialu syniadau / dulliau deongliadol. Mae rhai agweddau wedi'u gwerthuso. Ymgynghorwyd ag arbenigwyr mynediad ac addysg a gweithredwyd ar sail y cyngor. Peth ddarpariaeth ddwyieithog.

☐ Fel uchod ynghyd ag: O leiaf 25% o'r arddangosfeydd wedi'u hadnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae gan y rhaglen ailarddangos gynulleidfaoedd wedi'u targedi ac ystyriwyd mewnbwn gan ddefnyddwyr. Mae rhai agweddau wedi'u gwerthuso. Arbenigwyr mynediad ac addysg wedi'u cynnwys ar bob cam. Y rhan fwyaf o'r cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.

☐ Fel uchod ynghyd ag: O leiaf 50% wedi'i adnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf. Cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiannol a chrynodol a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn yr arddangosfeydd presennol. Yr holl gyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.

Mynediad – Anabledd

18. Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

☐ Dim ymwybyddiaeth o nam corfforol, nam ar y synhwyr, nam dysgu na nam gwybyddol nac ymateb iddynt, nac i'r rhwystrau analluogi sy'n bodoli o fewn y sefydliad, adeiladau neu'r gwasanaethau.

☐ Asesu gan staff yr amgueddfa o'r rhwystrau posibl i fynediad corfforol, synhwyrdd a deallusol.

☐ Fel uchod a hefyd: Y staff yn defnyddio rhestr wirio gydnabyddedig i wneud asesiad. Clustnodwyd rhai mentrau (e.e. rampiau, tywysydd sain, digwyddiadau gyda iaith arwyddion) i oresgyn rhwystrau. Ymwybyddiaeth gyffredinol o oblygiadau'r Ddeddf Cydraddoldeb. O leiaf un aelod o staff wedi cael Hyfforddiant ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

☐ Fel uchod a hefyd: Mae gan Reolwr yr amgueddfa a staff allweddol ddealltwriaeth dda o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Ymgynghorwyd â defnyddwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr i asesu rhwystrau corfforol, synhwyrdd a deallusol posibl, a rhaglen gyda chostau i ymateb. O leiaf 30% o hyn wedi'i gyflawni. Mentrau newydd (cyfalaf neu wasanaethau) yn llwyr gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. O leiaf 30% o staff wedi cael Hyfforddiant ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Rhywfaint o ddarpariaeth dwyieithog.

☐ Fel uchod a hefyd: Ymdrechu i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Archwiliad mynediad llawn wedi'i wneud gydag archwilwyr proffesiynol drwy ymgynghori â phobl anabl. Cynllun â chostau i'w gyflwyno'n raddol i fynd i'r afael â'r canfyddiadau, ac o leiaf 40% wedi'i gyflawni. O leiaf 50% o'r staff wedi cael Hyfforddiant ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a'r bwriad i ymestyn hyn i weddill y staff.

☐ Fel uchod a hefyd: Yn gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Archwiliad mynediad llawn wedi'i wneud gydag archwilwyr proffesiynol drwy ymgynghori â phobl anabl, wedi gweithredu ar bob un o'r argymhellion i roi mynediad llawn i bobl sydd â nam corfforol, nam ar y synhwyr, nam dysgu a nam gwybyddol. Wedi parhau i ymgynghori â defnyddwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr, a rhaglen o adolygu'r ddarpariaeth a datblygu gwelliannau pellach. Pob un o'r staff wedi cael Hyfforddiant ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Rhaglen a chyllideb ar gyfer diweddarau'r hyfforddiant yn rheolaidd.

Tudalen 7: Gweithrediadau ariannol yr amgueddfa

19. A yw eich amgueddfa fel arfer yn codi tâl am fynediad cyffredinol? * *Gofynnol*

- Ydy
- Nac ydy
- Weithiau/yn dymhorol

20. Heblaw am fynediad cyffredinol, a yw eich amgueddfa yn codi tâl am unrhyw arddangosfa neu wasanaethau? (ti ciwch bob un sy'n gymwys) * *Gofynnol*

- Nac ydy
- Arddangosfeydd dros-dro/ arbennig
- Digwyddiadau
- Ymweliadau addysg ffurfiol
- Sgyrsiau
- Arall

20.a. Os dewisoch chi Arall, rhwch fanylion os gwelwch yn dda:

21. Rhowch ffigurau eich cyllideb weithredol safonol (peidiwch â defnyddio'r symbol £) ar gyfer:

	Cyllideb * <i>Gofynnol</i>	Amcan neu union? * <i>Gofynnol</i>	
		Amcan	Union
2017-18	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2018-19	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2019-20	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2020-21	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
2021-22	<input type="text"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

22. Nodwch flwyddyn ariannol eich amgueddfa os yn wahanol i 1 Ebrill – 31 Mawrth.

23. Rhowch y cyfansymiau blynyddol ar gyfer y wybodaeth ganlynol am y flwyddyn ariannol 2021 - 2022. Os mai eich ateb yw 'Amherthnasol' rhowch 0.

Amcan neu union? *
Gofynnol

	Y Gyllideb * Gofynnol	Amcan	Union
Incwm (heb gynnwys cyllid cyfalaf)	<input type="text"/>	☐	☐
Gwariant (gan gynnwys costau staff ond heb gynnwys cyllid cyfalaf)	<input type="text"/>	☐	☐
Gwariant ar gostau staff	<input type="text"/>	☐	☐
Incwm mynediadau	<input type="text"/>	☐	☐
Incwm arall a enillwyd (e.e. siop, hurio ystafell, caffi)	<input type="text"/>	☐	☐
Cyllid cyhoeddus / grant (e.e. ariannu Awdurdod Lleol)	<input type="text"/>	☐	☐
Incwm Rhoddion	<input type="text"/>	☐	☐
Incwm cyfraniadau eraill	<input type="text"/>	☐	☐
Grant Refeniw / incwm prosiectau	<input type="text"/>	☐	☐
Grant Cyfalaf / incwm prosiectau	<input type="text"/>	☐	☐

23.a. Rhowch fanylion ffynhonnell unrhyw gyllid/grant

Canllawiau i gwestiynau ariannol

Cyfanswm incwm - cyfanswm incwm gan gynnwys unrhyw gyllid rheolaidd gan awdurdod lleol (ac eithrio cyllid cyfalaf).

Cyfanswm gwariant – cyfanswm gwariant gan gynnwys costau staff ac unrhyw dâl y mae awdurdod lleol yn ei ailgodi (ac eithrio cyllid cyfalaf).

Cyfanswm gwariant ar gostau staff – i gynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud â'r staff a gyflogir gan eich amgueddfa.

Cyfanswm mynediadau - cyfanswm incwm ar gyfer pob ymwelydd a dalodd i gael mynediad i'r amgueddfa.

Cyfanswm incwm arall a enillwyd – yn cynnwys incwm manwerthu, arlwy, digwyddiadau a lletygarwch, gweithgaredd addysgol ac unrhyw incwm o weithgaredd masnachu e.e. rhentu eiddo.

Cyfanswm cymhorthdal/ grant cyhoeddus – yn cynnwys unrhyw incwm rheolaidd gan awdurdod lleol (ac eithrio cyfalaf), Addysg Uwch, DCMS neu incwm craidd arall.

Cyfanswm rhoddion – yn cynnwys pob arian a roddwyd gan y cyhoedd neu gyfeillion (gan gynnwys cynlluniau cyfeillion/aelodau) na roddir unrhyw fuddion am y rhoddion.

Cyfanswm incwm arall a gyfrannwyd – yn cynnwys unrhyw incwm nawdd, incwm o gynlluniau aelodaeth gorfforaethol neu incwm arall heb ei ennill.

Cyfanswm incwm grant/ prosiect – yn cynnwys pob arian a dderbyniwyd ar ffurf incwm grant/ prosiect a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn ariannol (ac eithrio cyllid cyfalaf).

Cyfanswm incwm grant/ prosiect cyfalaf – yn cynnwys pob arian a dderbyniwyd ar ffurf incwm grant/ prosiect cyfalaf a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn ariannol.

Dylai'r dadansoddiad o'r incwm fod yn gyfwerth â chyfanswm incwm yr amgueddfa.

24. Er mwyn targedu cymorth, ym mhle rydych yn bwriadu chwilio am gyllid yn y tair blynedd nesaf?

25. A ydych wedi defnyddio pecyn cymorth newydd AIM ar yr effaith economaidd? <https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2019/10/Economic-Impact-Toolkit-2019.pdf> * Gofynnol

- Ydym
- Nac ydym

25.a. Beth yw eich effaith economaidd?

26. Ers arolwg Sbotolau 2020, mae'r cymorth gan awdurdod lleol (ym mha fodd bynnag yr ydych wedi arfer derbyn y cymorth e.e. ariannu rheolaidd, cynnal a chadw eiddo, ad-daliadau) wedi: * Gofynnol

- Codi
- Gostwng
- Parhau yr un fath
- Amherthnasol (ddim yn derbyn cymorth gan awdurdod lleol)

27. Os yw'r amgueddfa yn derbyn cymorth gan yr awdurdod lleol, pa fath o gymorth yw hyn?

- Cyllid reffeniw rheolaidd
- Rhyddhad ardrethi
- Mentor Amgueddfa (ar gyfer Achredu)
- Meddiannu adeiladau'r Cyngor yn ddi-dâl neu am gost isel
- Costau cynnal adeiladau
- Arall

27.a. Os dewisoch chi Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Tudalen 8: Gweithlu'r Amgueddfa

Cwestiwn yw hwn am wirfoddolwyr yn eich amgueddfa

28. Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa (gan gynnwys Ymddiriedolwyr)?

	Amcan neu union? * Gofynnol		
	Nifer * Gofynnol	Amcan	Union
Gwirfoddolwyr (Amgueddfa)	<input type="text"/>	☺	☺
Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr)	<input type="text"/>	☺	☺

28.a. Tua faint o oriau a gyfrannodd y gwirfoddolwyr yn 2021/22?

	Oriau * Gofynnol
Gwirfoddolwyr (Amgueddfa)	<input type="text"/>
Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr)	<input type="text"/>

28.b. Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg (rydym ni'n diffinio hyn fel y gallu i gyrchu cyfleusterau a gwasanaethau yn Gymraeg)?

	Nifer * Gofynnol
Gwirfoddolwyr (Amgueddfa)	<input type="text"/>
Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr)	<input type="text"/>

Cwestiwn yw hwn am staff a gyflogir gan eich amgueddfa

29. Beth yw cyfanswm nifer y staff a gyflogir gan eich amgueddfa gan gynnwys staff tymhorol/ ysbeidiol? (ar adeg prysuraf y flwyddyn) * Gofynnol

29.a. Faint o staff Cywerth ag Amser Llawn a gyflogir gan eich amgueddfa? * Gofynnol

29.b. Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg (rydym ni'n diffinio hyn fel y gallu i gyrchu cyfleusterau a gwasanaethau yn Gymraeg)?

Sut mae cyfrif Cywerth ag Amser Llawn (CALI)

Enghraifft: Mae aelod o staff sy'n gweithio 5 diwrnod yr wythnos (diwrnodau llawn) yn 1 gweithiwr CALI, mae aelod o staff sy'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn 0.6 CALI. Os oes gan amgueddfa 3 aelod o staff gydag un yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos a dau yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos, y nifer o staff CALI a gyflogir fyddai 2.2 CALI.

Os ydych yn cyfrif eich staff mewn oriau at ddibenion yr arolwg hwn, byddai 35 awr yn cael ei ystyried yn 1 CALI, felly byddai 7 awr yn cyfrif am 0.2 CALI.

30. Nodwch y nifer cyfwerth ag amser llawn o staff proffesiynol neu wirfoddolwyr yn y categorïau canlynol. Os mai eich ateb yw 'Amherthnasol' nodwch 0.

	Nifer * Gofynnol
Blaen y Tŷ	<input type="text"/>
Curadurol (gan gynnwys Ymchwil)	<input type="text"/>
Cadwraeth	<input type="text"/>
Mynediad/ Addysg	<input type="text"/>
Cyngor Rheoli / Datblygu	<input type="text"/>
Arall	<input type="text"/>
Gan gydnabod bod pobl o bosibl yn llenwi sawl rôl, sawl un o'r rolau uchod a lenwir gan guraduron neu gadwriaethwyr?	<input type="text"/>

31. Faint o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a gyflogir am dymor penodol ar brosiect/grant/gweithgaredd penodol? (h.y. heblaw am y tîm 'craidd') * Gofynnol

Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr

32. Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * Gofynnol

- Nid yw'r staff na'r gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant heblaw cyfnod sefydlu sylfaenol neu gyflwyniad i'r gweithdrefnau hanfodol.
- Anghenion hyfforddiant y staff a'r gwirfoddolwyr yn cael eu hasesu yn rheolaidd. Ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion sy'n effeithio ar weithrediadau'r amgueddfa. Y dyletswyddau ond yn cael eu cyflawni gan y staff a/neu'r gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi.
- Fel uchod a hefyd: Staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael cyfnod sefydlu llawn. Staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o God Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd ar gyfer amgueddfeydd. Cyfnod sefydlu ar gael ac yn cael ei gynnig fel mater o drefn i aelodau newydd o'r corff llywodraethol. Anghenion hyfforddiant y Staff / gwirfoddolwyr yn cael eu hasesu. Cynllun cyffredinol o hyfforddiant yn ei le a hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Staff a gwirfoddolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant a seminarau allanol o bryd i'w gilydd.
- Fel uchod a hefyd: Anghenion hyfforddiant, addysg ac ennyn ymwybyddiaeth cyffredol ac yn y dyfodol yn cael eu clustnodi ar gyfer aelodau unigol o staff a / neu wirfoddolwyr. Gwybodaeth am amrediad o faterion sy'n effeithio ar redeg amgueddfeydd ar gael i bob aelod o staff a gwirfoddolwyr os gofynnir am y wybodaeth. Staff dros-dro a gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant sylfaenol yn fewnol. Staff a gwirfoddolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant a seminarau allanol o bryd i'w gilydd. Staff yn cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw broblemau, a'u sylwadau yn derbyn sylw.
- Fel uchod a hefyd: Cyllideb benodedig ar gael ar gyfer datblygiad staff. Gwybodaeth am amrediad o faterion sy'n effeithio ar redeg amgueddfeydd ar gael i bob aelod o staff a gwirfoddolwyr ar ffurf sesiynau hyfforddiant rheolaidd, ymarferol, llenyddiaeth a gyhoeddwyd a dogfennau mewnol. Staff a gwirfoddolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant a seminarau allanol yn gyson. Hyfforddiant yn cael ei werthuso.
- Fel uchod a hefyd: Anghenion a darpariaeth hyfforddiant yn cael eu hadolygu yn gyson fel rhan o gylch cynllunio yr amgueddfa. Canllawiau ar gael gan yr amgueddfa ar ymddygiad contractwyr / darparwyr gwasanaeth ar y safle. Yr amgueddfa â statws 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. (Os mai rhiant gorff yr amgueddfa sydd â'r statws, rhaid i'r statws gyfeirio'n benodol at yr amgueddfa.)

33. Ers arolwg Sbotolau 2020, a yw eich cyllideb hyfforddiant wedi newid? * Gofynnol

- Wedi cynyddu
- Wedi gostwng
- Wedi parhau yr un fath
- Ddim yn berthnasol (e.e. nid oes un gennym ni)



Tudalen 9: Adeiladau ac Amgylchedd yr Amgueddfa

34. 40. Darparu Adeiladau Addas: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Yr adeilad wedi'i adeiladu'n wael neu mewn cyflwr gwael. Nid yw'r amgueddfa yn gyfrifol am gynnal-a-chadw'r adeilad ac nid oes ganddi unrhyw reolaeth dros y gwaith. Dim unrhyw waith cynnal-a-chadw wedi'i gynllunio na'i gyllidebu. Dim gwaith atgyweirio wedi'i wneud. Yr adeilad heb staff a phrin iawn yw'r ymwelwyr.
- Yr adeilad mewn cyflwr gwael. Nid yr amgueddfa sy'n rheoli cynnal-a-chadw'r adeilad ond ymgynghorir â'r amgueddfa ynglŷn â gwaith cynnal cyfyngedig. Prin yw'r gyllideb sydd ar gael ac nid yr amgueddfa o reidwydd sy'n rheoli'r gyllideb honno. Gwaith atgyweirio hanfodol ond yn cael ei wneud yn ôl yr angen. Adeilad ond ar agor yn ystod tymor ac ond yn derbyn ymwelwyr yn ystod y cyfnod agor.
- Yr adeilad yn ddiddos rhag gwynt a glaw. Yr adeilad yn gadarn a phob llawr yn ddigon cryf i ddal y pwysau yn ddiogel. Pob adeilad yn cael ei ymweld a'i archwilio yn rheolaidd (gan gynnwys yr adeiladau sydd fel arfer yn wag). Y staff yn archwilio'r offer a'r cyfarpar bob hyn a hyn. Bygythiadau posibl i'r casgliadau yn cael eu clustnodi a'u hasesu. Yr amgueddfa sy'n rheoli (neu â dylanwad cryf dros) y gwaith o gynnal yr adeiladau. Gwaith cynnal hanfodol yn cael ei gyflawni. Yr amgueddfa â dylanwad dros y gyllideb.
- Fel uchod a hefyd: Rhestr o waith rheolaidd o gynnal yr adeilad a'r cyfleustodau yn ei lle. Person cymwys yn gwneud adroddiad rheolaidd ar gyflwr yr adeilad. Llefydd lle gall llygod, pryfed a llwch ymdreiddio i'r adeilad yn cael eu clustnodi a'u selio. Staff sy'n gyfrifol am y casgliadau yn cael gwybod ymlaen llaw am waith adeiladu.
- Fel uchod a hefyd: Cynllun gweithredu yn ei lle i roi argymhellion yr adroddiad rheolaidd ar waith. Contractwyr sy'n gweithio ar y safle yn cael gwybod am y goblygiadau posibl i'r casgliadau ac yn cael eu goruchwylio. Meincnodau mewn Gofalu am Gasgliadau yn cael eu defnyddio fel sail i wella'r amodau.
- Fel uchod a hefyd: Cynllun rheoli'r adeilad yn cael ei adolygu'n gyson a'r argymhellion yn cael eu gweithredu. Adroddiadau ar gyflwr yr adeilad yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio. Cofnodion yn cael eu cadw o bob gwaith adeiladu, cynnal-a-chadw ac archwiliadau. Ymgynghorir â phanel neu wasanaeth ymgynghorol ar gadwraeth ar gynllunio unrhyw waith adeiladu.

35. 41. Monitro Amgylcheddol: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau. * *Gofynnol*

- Dim monitro. Problemau amgylcheddol amlwg. Dealltwriaeth brin o'r materion.
- Dim monitro. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion.
- Ychydig o fonitro yn cael ei wneud. Cyfarpar yn cael ei storio a'i raddnodi yn ddigonol. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion.
- Monitro yn cael ei wneud. Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn cael eu clustnodi. Cofnodion yn cael eu cadw ac yn derbyn sylw.
- Offer monitro wedi'i gysylltu â chyfrifiaduwr. Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn cael eu clustnodi. Cofnodion yn cael eu cadw ac yn derbyn sylw. Cofnodion yn cael eu dehongli.
- Offer monitro wedi'i gysylltu â chyfrifiaduwr ac offer rheoli'r amgylchedd. Offer monitro yn cael ei raddnodi yn gyson. Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn cael eu clustnodi. Cofnodion yn cael eu cadw ac yn derbyn sylw. Data yn llywio'r gwaith cynllunio a'r gyllideb.

36. Rheoli'r Amgylchedd: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Dim rheoli. Problemau amgylcheddol amlwg. Dealltwriaeth brin o'r materion.
- Dim rheoli. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion.
- Rhywfaint o ymdrech i reoli. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion.
- Offer rheoli penodol yn ei lle. Offer yn cael ei gynnal. Rheoli yn cael ei gynnal am 50% o'r amser. Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn cael eu clustnodi.
- Offer rheoli penodedig yn ei lle a'i ddefnyddio ochr yn ochr â'r offer monitro. Offer wedi'i raddnodi a rhaglen cynnal-a-chadw yn ei lle. Rheoli yn cael ei gynnal am 75% o'r amser (neu fwy). Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn 75% wedi'u cwblhau.
- Offer rheoli soffistigedig yn ei lle wedi'i gysylltu â'r offer monitro. Rheoli yn cael ei gynnal am 90-100% o'r amser. Amodau sy'n ofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol yn 90% wedi'u cwblhau. Cofnodion yn cael eu cadw ac yn derbyn sylw. Data yn llywio'r.

Tudalen 10: Casgliadau

37. Faint o wrthrychau/eitemau sydd gennych yn eich casgliad? * Gofynnol

38. Faint o eitemau a dderbyniwyd i'ch casgliadau parhaol yn 2021-2022?

	Nifer * Gofynnol
Pryniadau	<input type="text"/>
Rhoddion	<input type="text"/>

39. Faint o wrthrychau sydd wedi gadael y casgliadau parhaol yn 2021-2022 drwy'r canlynol:

	Nifer * Gofynnol
Rhoddion	<input type="text"/>
Gwerthu	<input type="text"/>
Dinistrio	<input type="text"/>

40. Gan gymryd nifer y casgliadau a'r nifer a waredwyd i ystyriaeth, pa mor hir yn eich barn chi fydd hi cyn i'r storfeydd ddod yn orlawn? * Gofynnol

- Eisoed yn orlawn
- Hyd at 5 mlynedd
- 5 - 10 mlynedd
- Mwy na 10 mlynedd

41. Storio a chadw tŷ: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * Gofynnol

- Eitemau heb eu storio mewn lle penodedig i storio casgliadau. Ychydig neu ddim gwaith glanhau yn cael ei wneud. Eitemau heblaw am gasgliadau yn cael eu cadw mewn ystafelloedd storio nwyddau. Dim trefniadaeth, na gosod eitemau ar raciau neu mewn blychau. Dim ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o broblemau plâu.
- Lle storio penodedig yn cael ei ddefnyddio. Ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon. Gorlenwi i'r graddau na dderbynnir eitemau newydd neu cyfyngir yn gaeth ar hynny. Dim cynllun storio. Archwilio am olion plâu o bryd i'w gilydd. Rhywfaint o lanhau'r ardaloedd storio.
- Storfeydd wedi'u cynllunio. Dal i fod yn orlawn o bosibl, gwneud lle i eitemau newydd drwy bacio eitemau presennol yn agos at ei gilydd. Mynediad diogel i eitemau unigol. Pacio eitemau bregus yn ôl graddfa-cadwraeth. Gwybodaeth am blâu a thrapiau llygod yn cael eu defnyddio. Ardaloedd storio yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Trefniadau yn eu lle i roi mynediad i'r cyhoedd i'r casgliadau sydd wedi'u storio.
- Mynediad hwylus i eitemau unigol. Pacio yn ôl graddfa cadwraeth. Hap-archwilio cyflwr. Cadw tŷ yn rheolaidd. Rhaglen o fonitro plâu. Lle ar wahân i weithio yn y storfa.
- Storfeydd mewnol wedi'u trefnu'n dda ac yn ddigonol ar gyfer y casgliadau presennol. Rhaglen glanhau/gofal integredig. Cofnodion o leoliad storfeydd. Eitemau bregus wedi'u dustnodi. Cwranfîn ar gyfer eitemau a dderbynnir. Archwilio cyflwr detholus.
- Lle i ehangu. Rhaglen cadw tŷ. Rhaglen integredig o reoli plâu. Rhaglen dreigl o archwiliadau cyflwr. Celfi a deunydd storio anadweithiol. Ardal astudio.

42. Arddangosiadau a chadw tŷ: Dewiswch y datganiad ystod isod sy'n cyfateb i'ch amgueddfa ac yn ei disgrifio orau * *Gofynnol*

- Ychydig neu ddim gwaith glanhau yn cael ei wneud. Dim ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o broblemau plâu. Casys arddangos (os o gwbl) o ansawdd gwael. Gorlawn.
- Ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon i eitemau ac i ymwelwyr. Gorlawn. Archwilio am olion plâu o bryd i'w gilydd. Glanhau llefydd cyhoeddus yn rheolaidd. Casys arddangos yn lân ac yn fodem.
- Ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon i eitemau ac i ymwelwyr. Arddangosiadau yn gymen ac wedi'u trefnu'n dda ond gall fod yn anodd i'r staff fynd atynt. Cynheiliaid graddfa-cadwraeth i'r eitemau bregus. Gwybodaeth am blâu a thrapiau llygod yn cael eu defnyddio. Rhai casys arddangos o ansawdd da.
